ECO'R WYDDFA

RHIF 361 RHAGFYR 2008 PRIS 40c

Yn y rhifyn hwn:

- Gwybodaeth bwysig am drefniadau rhifyn Nadolig/Ionawr yr *Eco* – tud. 2
- Diwedd Cyfnod – Ffarwelio â Gwasg Gwynedd – tud. 3
- Cyfarchion Nadolig y pentrefi.

CARU NODYN

Gareth William Jones, Bow Street, yn lansio ei lyfr Caru Nodyn *yn Ysgol Rhydypennau, gyda Math Roberts, Yn ei gynorthwyo ar y piano mae bachgen lleol, James Hancoch-Evans.* LLUN: ARVID PARRY JONES

Nos Fercher, 12 Tachwedd, ac roedd neuadd Ysgol Rhydypennau, ger Aberystwyth, yn diasbedain gan seiniau miwsig piano. A beth sydd a wnelo hynny â bro'r 'Eco'? Wel, darllenwch ymlaen.

Pianydd ifanc dawnus dros ben oedd wrth yr offeryn. Lawnsio *Caru Nodyn*, nofel newydd Gareth William Jones, oedd yr achlysur.

Penderfynwyd lawnsio'r nofel yng ngyfarfod Adran yr Urdd yn yr ysgol am mai ar gyfer plant o wyth i un ar ddeg oed y mae hi wedi'i hysgrifennu. Yn hytrach na chanolbwyntio'n llwyr ar y llyfr ei hun, fodd bynnag, trowyd yr achlysur yn ddathliad o'r piano.

Hanes merch fach o'r enw Shauna yw'r nofel, sydd yn gorfod mynd i gael gwersi piano bob wythnos ac sydd yn eu casáu nhw, ac yn casáu ymarfer hyd yn oed yn fwy. Yr unig air y gallai hi feddwl amdano i fynegi cymaint roedd hi'n casáu'r holl beth oedd *ychafiofnadwyaethus*.

Yn ei gyflwyniad i'r plant esboniodd yr awdur ei fod yn gwybod yn iawn am y profiad hwnnw gan ei fod yntau, pan yn blentyn, wedi bod yn amharod i ufuddhau a cheisio meistroli'r nodau du a gwyn. Yn unol â phroffwydoliaeth ei fam bu'n edifar ganddo.

Ond bu Shauna'n fwy ffodus na'r awdur. Un diwrnod daeth Nodyn, cath ddu a gwyn ei hathrawes biano, yn rhan o'i bywyd a digwyddodd pethau rhyfedd iawn yn sgil hynny. Heb ddatgelu unrhyw gyfrinach, erbyn diwedd y stori gallai Shauna chwarae'r Noctwrn Rhif 2 yn E Fflat gan Frederic Chopin.

Wrth drefnu'r cyfarfod lawnsio, cafodd yr awdur y syniad y byddai'n beth da cael plentyn tua'r un oed â darllenwyr y nofel i chwarae'r union Noctwrn honno yno. Ond ble roedd dechrau chwilio? Barn arbenigwyr dysgu cerdd oedd y byddai'n orchwyl amhosibl. Daliwyd ati fodd bynnag ac, o'r diwedd, daethpwyd o hyd i bianydd ifanc o'r enw Math Roberts, disgybl yn Ysgol Gynradd Llanrug.

Braint a chyfaredd i bwb a oedd yn y cyfarfod, yn oedolion a phlant, oedd clywed Math, ag yntau'n ddim mwy na naw mlwydd oed, yn rhoi datganiad hyfedrus a sensitif o'r gwaith anodd hwn, a hynny gyda phurdeb a glendid diymffrost. Bu'n wefr yn wir.

A chafodd cynulleidfa yn Eisteddfod Bentref Llanrug y cyfle i wrando ar Math yn perfformio'r Noctwrn yno hefyd – a hynny ar y cof, heb ddefnydd copi o gwbl.

Llongyfarchiadau mawr i ti Math.

* * *

Mae'r 'Eco' yn ddiolchgar i bapur bro 'Tincer' am anfon y stori a'r llun o'r achlysur.

'Dringo I'r Eitha'

– A Gwobr Gŵyl Ffilmiau Ryngwladol



CIPIODD Alun Hughes o'r Fachwen (un o hogia Llanbêr) y wobr gyntaf yng ngŵyl ffilmiau rhyngwladol Gratz yn Awstria gyda'i ffilm *Dringo i'r Eitha*. Dangoswyd y ffilm hon ar S4C yr haf diwethaf (cynhyrchiad Cwmni Da). Portread yw o fachgen ysgol un ar bymtheg oed, Ioan Alun Doyle o Fethesda, a'i gynnydd anhygoel yn y grefft o ddringo craig.

Cafodd ffilm arall gan Alun ei gosod yn yr ail gategori, sef *'Upside Down Wales'*. George Smith yw'r cymeriad hoffus a digri yn hon ac mae'r ffilm yn dilyn ei obsesiwn o ddringo crog greigiau a thoau – unrhyw graig sydd dros 90 gradd o'r fertigol lle y gall ddangos ei oruchafiaeth dros ddisgyrchiant. Mae Côr Meibion Dyffryn Peris yn cymryd rhan fach yn y ffilm hon.

Os am weld pytiau o'r ffilmiau hyn a rhai eraill, ewch i wefan Alun, sef http://www.alhughes.tv/

ECO'R WYDDFA

RHIF 361
RHAGFYR 2008

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r cyhoeddiad hwn.

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu â	Rhif Ffôn
Nadolig/Ionawr	8 Rhagfyr	18 Rhagfyr	Ysgol Brynrefail	Eifion Jones	672381

Tal Gwynedd
5 Heol y Bedyddwyr
Penygroes
Caernarfon
Gwynedd LL54 6NU

Annwyl Olygydd,

Yn awr mae Tachwedd 11eg wedi mynd heibio, a choffáu'r rheiny a gollodd eu bywydau yn nau ryfel byd yr 20fed Ganrif, hoffwn atgoffa pawb am ddiwrnod coffa eto i ddod.

Ar Ragfyr 11eg 1282, lladdwyd Llywelyn ap Gruffydd, Tywysog Cymru, ynghyd â miloedd o'i filwyr yng nghyffiniau Cilmeri wrth ymyl Llanfair ym Muallt, yn ymladd i gadw Cymru yn rhydd o ormes Lloegr. Claddwyd corff Llywelyn yn Abaty Cwmhir ac aethpwyd â'i ben i Lundain fel troffi. Credir i gyrff ei filwyr orwedd mewn bedd torfol o dan gwrs golff Llanfair ym Muallt.

Fel sy'n digwydd bob blwyddyn ers 60au'r ganrif ddiwethaf, coffeir y trychineb hwn yn hanes Cymru trwy gynnal seremoni yng Nghilmeri ar y dydd Sadwrn agosaf i Ragfyr 11, sef Rhagfyr 13eg eleni. Cynhelir hefyd ar ddydd Sul, Rhagfyr 14eg, seremoni coffáu yn Llys Rhosyr, olion un o lysoedd Llywelyn, ar gyrion Niwbwrch ar Ynys Môn. Dylai pawb sy'n dymuno cymryd rhan ymgynnull wrth ymyl Institiwt Niwbwrch am 1.00 o'r gloch. Cyn hynny yn y bore caiff torchau eu gosod wrth gofgolofn Llywelyn y tu allan i swyddfeydd Cyngor Gwynedd yng Nghaernarfon am 11.00 o'r gloch.

Gobeithir gweld yn y seremonïau hyn bawb sy'n meddwl ei bod yn bwysig coffáu'r Cymry sydd wedi colli eu bywydau dros eu gwlad mewn rhyfeloedd.

Mae hi'n tynnu am ddeuddeng mlynedd ers arwisgo yr ymhonwr Saesneg, Charles Windsor, yn Dywysog Cymru ym 1969. Ar adeg pan mae sôn wedi bod am ddathlu hyn ym mis Gorffennaf, 2009, mae'n bwysig ein bod y coffáu y bu ein gwlad, unwaith, yn rhydd ac y bu gennym ein tywysogion ein hunain.

Yr eiddoch yn wlatgar.

CHRIS SCHOEN

RHODDION

£20: Bert a Megan Jones, 12 Ffordd Glanffynnon, Llanrug.

£10: er cof am Katie Lloyd Hughes, Dinorwig; Nan Wilson Evans, Manod, Ffordd Capel Coch, Llanberis; Dilys Baylis, Llanberis; Shaun Foulkes, 3 Dôl Elidir, Llanberis. Er cof am Jane Patricia Lovell, Deiniolen.

£5: Beryl, 8 Maes Derlwyn, Llanberis; Mrs Myra Griffith, Penisarwaun; Evan a Nerys Owen, Bethel; Mrs Betty Pritchard, 3 Llys y Gwynt, Penisarwaun.

Cynllun Efe
Gwasanaeth Comisiynu
Mr Andrew Settatree
yn
Weithiwr Cristnogol
ymhlith ieuenctid
bro *Eco'r Wyddfa* yng
Nghapel y Rhos, Llanrug
am 7.00 o'r gloch
nos Lun, Rhagfyr 1, 2008
Croeso cynnes i bawb

PWYSIG PWYSIG PWYSIG

I bawb sydd am anfon newyddion, deunydd, storïau, erthyglau ac yn y blaen ar gyfer rhifyn y Nadolig.

Bydd angen anfon ar e-bost i Alwena– y cyfeiriad e-bost yw alwenaowen@gmail.com. I'r rhai sy'n parhau i anfon drwy'r post neu â llaw, yna anfon i Tir Iarll, Llandwrog neu Penarth, Llanrug.

RHAID i'r holl deunydd fod i law erbyn dydd Mawrth, 9fed o Ragfyr. Ni fydd unrhyw ddeunydd a dderbynir wedi'r dyddiad hwnnw yn cael ei gynnwys!

PEIDIWCH ac anfon unrhyw deunydd i Wasg Gwynedd nac i Wasg Dwyfor.

Bydd y trefniadau ar gyfer rhifyn Chwefror 2009 (sef y rhifyn cyntaf yn y flwyddyn newydd) yn cael eu cyhoeddi yn rhifyn y Nadolig.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Erthyglau a newyddion at ohebwyr pentref neu i
Penarth
Ffordd yr Orsaf
LLANRUG LL55 4BA

Straeon ac erthyglau ar e-bost i
alwenaowen@gmail.com
neu Tir Iarll, Llandwrog LL54 5TE
neu storiau@ecorwyddfa.co.uk

CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION
Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Llanberis (870740)
eifion@eifionroberts9.wanadoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)
BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran (01248) 670726
BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
DINORWIG: Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt (870740)
LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon (871820)
PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
DYDD LLUN, 8 RHAGFYR
Os gwelwch yn dda
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, 18 RHAGFYR
Dyddiad Gosod
SUL 14 RHAGFYR am 5.00

Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch â **Gomer Roberts**
Ffôn : **01286 870462**
Symudol : **07962 712368**

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

Cynnyrch Eisteddfodau lleol a lluniau i ymddangos yn y rhifyn nesaf.

BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

Diwedd Cyfnod

Y rhifyn hwn o *Eco'r Wyddfa* yw'r un olaf i Wasg Gwynedd ei argraffu a hynny ar ôl dros ddeng mlynedd ar hugain o bartneriaeth ffrwythlon a chyfeillgar. Pan sefydlwyd *Eco'r Wyddfa* yn nechrau 1976 roedd hi'n naturiol troi at wasg leol a oedd, bryd hynny, wedi ei lleoli yn Nant Peris. Pan symudwyd i Stad Ddiwydiannol Cibyn yng Nghaernarfon yn ystod 1979, dilynodd yr *Eco*.

Ar ddiwedd Tachwedd eleni daw adran argraffu'r wasg i ben gyda ymddeoliad y perchennog, Alwyn Elis, ar ôl dros 36 mlynedd o redeg y wasg. Bydd adran gyhoeddi'r wasg yn parhau, ond ar yr ochr argraffu bydd pum aelod o staff a roddodd ar gyfartaledd dros wyth mlynedd ar hugain o wasanaeth yr un i'r cwmni yn colli eu gwaith.

Mae hefyd wedi bod yn gyfnod anodd i bwyllgor bychan o weithwyr yr *Eco* – chwilio am wasg arall i fod yn gyfrifol am yr argraffu o rifyn y Nadolig ymlaen ac ystyried oblygiadau ariannol y newid hwnnw, a hyn i gyd gan yr un pwyllgor sy'n gofalu ers rhai misoedd bellach am osod y papur ac am ei gynnwys, gan nad oes golygydd. Ydi, mae'r baich yn drwm ar ychydig ysgwyddau ar hyn o bryd!

Gwasg Dwyfor, Penygroes, fydd yn argraffu'r rhifyn nesaf ond bydd un peth yn aros yr un fath. Er fod Alwena wedi colli ei swydd gyda Gwasg Gwynedd, mae'n parhau i weithio i'r *Eco* a hi fydd yn gyfrifol am deipio'r holl ddeunydd yn fisol.

Edrychwn ymlaen at gydweithio hapus gyda Gwasg Dwyfor yn y flwyddyn newydd, ac wrth ddymuno'r gorau i gyn-weithwyr Gwasg Gwynedd i'r dyfodol ac i Alwyn ar ei ymddeoliad, diolchwn i Wasg Gwynedd am ei gofal ohonom dros y blynyddoedd.



Mae'r gist ar agor i grwpiau cymunedol Gwynedd

Mae grwpiau cymunedol a gwirfoddol ledled Gwynedd wedi elwa ar gymorth ariannol sydd ar gael iddynt ddatblygu cynlluniau sydd o fudd i'w hardaloedd lleol, diolch i gronfeydd Cist Cymunedol Gwynedd.

O greu sgwâr newydd yng nghanol pentref i uwchraddio caeau chwarae cymunedol, clustnodwyd hyd at £234,863 o arian i grwpiau ar hyd a lled Gwynedd.

Dywedodd y Cynghorydd Dewi Lewis, Uwch Arweinydd Portffolio Datblygu Cyngor Gwynedd, sy'n arwain ar yr Economi ac Adfywio:

'Mae pecyn grantiau Cist Gwynedd yn rhoi cefnogaeth i'n grwpiau cymunedol a gwirfoddol i ddatblygu a gwireddu cynlluniau arbennig sy'n dod â budd gwirioneddol i gymunedau lleol ledled y sir.

'Mae amrywiaeth eang o brosiectau pwysig wedi eu cefnogi gan arian Cist Gwynedd, sy'n brawf o allu mudiadau a sefydliadau Gwynedd i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu prosiectau sydd yn ymateb i anghenion trigolion lleol a'u cymunedau. Yr hyn sy'n arbennig am y cynlluniau hyn yw eu bod nhw'n deillio'n uniongyrchol o'r cymunedau lleol, gan sicrhau budd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ledled y sir.

'Rwy'n hyderus y bydd pecyn Cist Gwynedd yn parhau i gynnig cyfleon pwysig i grwpiau cymunedol Gwynedd ac y bydd y prosiectau llwyddiannus yn datblygu i fod yn sylfaen bendant i economi'r sir i'r dyfodol.'

Nod Cist Gwynedd, sy'n cael ei weinyddu gan Gyngor Gwynedd, yw cefnogi cynlluniau a fydd yn gwella ansawdd bywyd trigolion, grwpiau a chymunedau, a galluogi grwpiau gwirfoddol Gwynedd i chwarae rôl bwysig yn natblygiad cymunedau'r sir. Mae cronfeydd Cist Gwynedd yn cynnwys Cronfa Wledig II a Chronfa Datblygu Gwirfoddol sy'n cynnig cefnogaeth ariannol i'r sector wirfoddol a chymunedol.

'Ers eu sefydlu yn 2002, mae cronfeydd Cist Gwynedd wedi galluogi grwpiau cymunedol a gwirfoddol i wireddu dwsinau o gynlluniau o bwys gwirioneddol i gymunedau lleol ar hyd a lled Gwynedd,' ychwanegodd Sioned Williams, Pennaeth Gwasanaeth Economi ac Adfywio Cyngor Gwynedd.

'Mae eu llwyddiant yn dyst i waith caled aelodau'r cyhoedd sy'n fodlon gweithio gyda grwpiau cymunedol eraill i ddatblygu prosiectau sy'n ateb gofynion lleol, tra'n hybu mentergarwch yn ein cymunedau.

'Mae Cyngor Gwynedd yn falch i allu cefnogi a chynorthwyo'r grwpiau lleol yma, a byddem yn annog unrhyw un sy'n awyddus i wybod mwy am y cymorth sydd ar gael i gysylltu gyda swyddogion Cyngor Gwynedd i drafod sut y gallwn ni fod o gymorth.'

ANTUR WAUNFAWR

AELODAU BWRDD Y CWMNI ANTUR WAUNFAWR

MAE Antur Waunfawr yn awyddus i gryfhau aelodaeth o'r Bwrdd Rheoli. Os ydych yn byw yn nalgylch Waunfawr ac yn awyddus i gyfrannu i fenter gymdeithasol arloesol sy'n integreiddio pobl ag anabledd dysgu i'r gymuned trwy ddarparu prosiectau gwaith cynaladwy – dewch i gysylltiad.

Rydym yn chwilio am bobl a all wneud cyfraniad ar lefel strategol i ddatblygu'r Cwmni – gydag arbenigeddau penodol megis sgiliau cyfreithiol, marchnata, amgylcheddol, gofal cymdeithasol a busnes. Golyga'r ymrwymiad sy'n un gwirfoddol o leiaf un noson y mis. Cynhelir y cyfarfodydd drwy gyfrwng y Gymraeg.

Am fwy o wybodaeth codwch y ffôn ar y Cadeirydd Gill Wyn neu'r Brif Weithredwraig Menna Jones ar **01286 650721**.

AUDI SEAT PORSCHE VOLKSWAGEN
DIESEL PETROL CHWISTRELLIAD ARBENIGWYR
SKODA TYRBO BMW CLUTCHES PEUGEOT BRÊCS FIAT ABS
MEWNFORIO YR ALMAEN UNIONI OLWYNION CAM BELTS TRYDANOL SWEDEN
•Cymhwyter• BOSCH i roi gwasanaeth i'ch car heb effeithio ar y warant* Dewis arall dibynadwy yn lle'r Prif Ddeliwr
* Gyda rhai amodau
MOT
Trwsio cerbydau a gwerthu partiau sbâr Lle da y gellwch ei fforddio
Shell HELIX
Ståd Cibyn, Caernarfon, Gwynedd LL55 2BD
(01286) 673559 www.a-v-w.co.uk
AVW ADVANCED VEHICLE WORKSHOP
Gwasanaeth i'r Car
BOSCH Service OFT
AIR CON GWASANAETH BATRIS
VOLVO MERCEDES SAAB

Beth am brynu Tocyn Gwyliau yn anrheg y Nadolig yma?

ARVONIA

- Gwyliau Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Tripiau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffôn: **01286-675175** • Ffacs: **01286-671126**

E-bost: **info@arvonia.co.uk** • Gwefan: **www.arvonia.co.uk**

DMM

Nadolig Llawen

a

Blwyddyn Newydd Dda

oddi wrth bawb yn

DMM

LLANBERIS

www.dmmwales.com

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
Dda oddi wrth bawb yn

SIOP a FFERM FÊL
YR WYDDFA

STRYD FAWR, LLANBERIS

Ffôn: 870218

Mêl

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

GWIN a MEDD

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn

Sychlanhau • Altro
Ailwnïo
Gwasanaeth
Casglu a Danfon

54 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870088

SWIGOD A SEBON

GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

CRIB GOCH

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth **Dylan**
Stryd Fawr Llanberis
Ffôn: 870777

Manteisiwch ar y cyfle i brynu anrhegion a nwyddau Nadolig 50% i ffwrdd.

CYFARCHION Y TYMOR A DYMUNIADAU GORAU
oddi wrth
Dylan Davies

MODURDY'R WYDDFA

LLANBERIS Ffôn: 870225

Ceir ar werth; M.O.T.
Gwasanaeth Torri Lawr Ddydd a Nos

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i chwi oll
oddi wrth bawb yn siop

HAIRLINES

Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870328

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

PARADWYS

Therapi Iechyd a Harddwch

Triniaeth- Gwyneb • Llygaid • Croen • Dwylo/Traed
(PRIODAS, ACHLYSURON ARBENNIG)
TYLINIO (MASSAGE) AMRYWIOL

59 STRYD FAWR • LLANBERIS 01286 872645

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda
oddi wrth bawb yn y gwesty.
Diolch am eich cefnogaeth trwy'r flwyddyn.

★ Priodasau ★ Dathliadau
★ Achlysuron Arbennig
★ Cynadleddau ★ Pwyllgorau
★ Bwydlen Bar ★ Cinio Dydd Sul

THE LEGACY
ROYAL VICTORIA HOTEL
LLANBERIS

Ffôn: Llanberis (0)870 832 9903

wrth droed yr Wyddfa

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth Aneuryn a'r staff

Fframia
GWASANAETH FFRAMIO LLUNIAU

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth
Dewis eang yn cynnwys:
WILLIAM SELWYN :: KEITH ANDREW
KEITH BOWEN :: ROB PIERCY

www.fframia.com

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

GRAHAM A JEAN A PHAWB YN Y

PRINCE OF WALES
LLANBERIS 870708

Cwrw Blasus
Croeso Cartrefol

CYFARCHION NADOLIG
LLANBERIS

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth

H.E. HUGHES
A'I FEIBION
Bwthyn Gadlys
LLANBERIS
Ffôn: 870444

★ Gwerthwr Glo
★ Olew Gwres Canolog
i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn Rheilffordd yr Wyddfa

SNOWDON MOUNTAIN RAILWAY
LLANBERIS
• To the Summit since 1896 •

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE, Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn Llanberis a'r cylch

- Papurau Newydd
- Bwyd a Diod
- *'Off Licence'*
- Roliau a brechdanau poeth *Bake'n Bite*
- DVD's a Fideo
- Ar agor Llun – Sadwrn 6.30am – 10pm Sul 7am – 10pm
- Peiriant tynnu pres

Stryd Fawr Llanberis
(01286) 870434

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth
berchnogion a phawb yn Siop

LONDIS
LLANBERIS

Edrychwn ymlaen at eich gwasanaethu drwy gydol 2009

Eglwys Sant Padarn
Nos Sul Rhagfyr 21ain
am 7.30 yh

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

Dilys

Trin Gwallt Teithiol

Trin gwallt merched,
dynion a phlant
yn eich cartref

Symudol:
07919 897898
Ffôn:
(01286) 871869

CYFARCHION NADOLIG
LLANBERIS

RHEILFFORDD LLYN PADARN

Dewch am daith ar y trên bach i weld Siôn Corn, anrheg i bob plentyn a mins pei a diod i'r oedolion.

Rhagfyr 7,13,14, 20 a 21
Oedolion a phlant £6
(o dan 3 oed – £2.50)
Archebwch rŵan – mae'r trenau yn brysur lenwi.

Ffôn: **01286 870549** am fanylion.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth **Siop**

SPAR

LLANBERIS
Ffôn: 871050

Dewch atom am ddewis rhagorol o fwyd, diod a nwyddau eraill ar gyfer y Nadolig, am brisiau cystadleuol iawn.
Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

Allports
pysgod a sglodion o fri

Mae'r criw yn diolch i'n holl gwsmeriaid am eu cefnogaeth

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd!

56 STRYD FAWR LLANBERIS Ffon 872686

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740

Y GYMDEITHAS. Cafwyd noson ddiddorol iawn yn y cyfarfod diwethaf o'r Gymdeithas ar nos Fawrth, Tachwedd 11ed, pryd y cawsom sgwrs gan Mr Gwilym Evans, Llanberis, yn sôn am ei hen daid – y gŵr a wnaeth yr olew gwerthfawr hwnnw oedd yn dda at bopeth, sef 'OLEW MORRIS EVANS'. Roedd bron bob cartref yn berchen ar botelaid ohono ac roedd olew ar gael at anhwylder anifeiliaid hefyd,

Roedd yn amlwg o'r sgwrs bod Mr Gwilym Morris wedi gwneud gwaith ymchwil manwl iawn am beth amser. Diolch am noson ddifyr dros ben, un oedd yn dod ac atgofion yn ôl i lawer un ohonom. Diolch yn fawr.

Bydd cyfarfod nesaf y Gymdeithas ar nos Fawrth, Rhagfyr y 9ed, yn festri Capel Coch am 7yh. Bydd hon yn noson agored i bawb ymuno â ni i fwynhau paned a mins pei. Byddwn yn canu Carolau a cheir ambell eitem gan 'Gôr Bach Canu er Mwyn Pleser'. Dowch i fwynhau a dathlu geni ein Gwaredwr. Diolch yn fawr.

DIOLCH. Dymuna Alwena a'r teulu, 8 Rock Terrace, ddiolch o waelod calon i'w holl deulu, ffrindiau a chymdogion am y llu ymweliadau, cardiau a galwadau ffôn a gawsant ar ôl colli Gwynfryn. Diolch hefyd i feddygon a nyrsus meddygfa Llanberis am eu gofal amdano, i'r Parchedig John Pritchard am ei wasanaeth teilwng, ac i Gwynfor Jones am ei drefniadau trylwyr a theimladwy.

Fe rennir rhoddion er cof am Gwynfryn rhwng elusennau lleol.

Ternged i Gwynfryn Thomas

Cafodd ei eni a'i fagu yn Llanberis, mab y diweddar Owen a Mary, a brawd annwyl y ddiweddar Nellie, ac yma y bu'n byw gydol ei oes oni bai am ddwy flynedd yn y fyddin yn Cyprus. Bu'n gweithio fel 'moldar' yn Chwarel Dinorwig am flynyddoedd, yna gyda nifer o gwmnïau adeiladu, gorsaf bŵer Dinorwig ac adeiladwyr lleol.

Roedd Gwynfryn yn berson hoffus, hwyliog a deallus, yn weithiwr caled ac yn dynnwr coes heb ei ail. Bu'n gôl-geidwad dawnus yn ei ddydd gyda Llanbêr a Deiniolen, a'i brif ddiddordebau oedd pêl-droed, chwaraeon, cerdded a darllen. Ond, yn bennaf, dyn teulu ydoedd, gŵr, tad a thaid unigryw ac yn ystod y flwyddyn anodd hon fe ddathlodd ddeugain mlynedd o briodas gyda Alwena a gwelodd ei ddau fab, Geraint ac Alwyn, yn priodi.

Ni chwynodd ddim yn ystod ei salwch a bu teulu neu ffrindiau yn edrych amdano bron bob dydd am chwe mis. Roedd hyn yn gysur mawr iddo ac yn dweud llawer amdano fel person, a'r gynulleidfa yn ei angladd yn dyst i hyn.

Bydd colled enfawr ar ei ôl i'w deulu a'i ffrindiau, roedd yn un o gymeriadau Llanbêr, ond fe ddaw gwên wrth feddwl amdano ac wrth gofio'r straeon a'r dywediadau doniol.

CYFARCHION NADOLIG. Gan na fydd Beryl, 8 Maes Derlwyn, yn anfon cardiau Nadolig eleni, fe ddymuna Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Ddedwydd i'w theulu, ffrindiau a chymdogion.

CYFARCHION Y TYMOR i'r teulu a ffrindiau oll oddi wrth Nan Wilson Evans, Manod, Ffordd Capel Coch.

DYMUNA Dilys Baylis, dangnefedd dros Ŵyl y Nadolig a Blwyddyn Newydd llawn bendithion i bawb.

DYMUNA Bert a Megan, 12 Ffordd Glanffynnon, Llanrug, a'r teulu ddiolch yn ddiffuant i deulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o garedigrwydd a chydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli brawd, brawd yng ngyfraith ac ewythr annwyl.

DYMUNA Shaun Foulkes, 3 Dôl Elidir, ddiolch o galon i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau ac anrhegion a gafodd ar ei ben-blwydd yn 40 oed. Diolch yn fawr i bawb.

DYMUNA Sadie, Anita, Janice, David a Dylan, a'u teuluoedd ddatgan eu diolch am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt o golli gŵr, tad a thaid annwyl iawn, Eban Wyn Humphreys, 49 Dôl Elidir, Llanberis. Diolch i ffrindiau a chymdogion am

eu cefnogaeth ac i'r Parch Robert Townsend am wasanaethu yn yr angladd. Diolch o'r mwyaf am yr holl gardiau a negeseuon ac yn arbennig am y cyfraniadau er cof am Eban a'r gyfer Y Feddygfa yn Llanberis. Diolch hefyd i Mr Gwynfor Jones o E. W. Pritchard am ei wasanaeth trylwyr a'i ofal arbennig.

Eban

Colled fawr i'r teulu a'r holl bentref fu ymadawiad y diweddar Eban Wyn Humphreys, 49 Dôl Elidir, Llanberis a fu farw ar 23 o Hydref yn dawel yng nghwmni ei deulu yn Ysbyty Gwynedd yn 74 mlwydd oed yn dilyn salwch hir a blin.

Fe'i ganwyd yn Glan Llyn, Llanberis, yn fab i'r diweddar Guto a Jennie Humphreys. Roedd yn un o'r cyntaf i fyw yn Dôl Elidir pan symudodd i'r tai newydd gyda'i rieni yn 1938. Roedd hefyd yn un o'r disgyblion cyntaf i fynychu ysgol newydd Dolbadarn pan agorwyd hi ym mis Hydref 1938. Wedi gadael yr ysgol aeth i weithio i chwarel Dinorwig ac, yn dilyn cyfnod o wasanaeth yn y Fyddin, fe ymunodd â staff rheilffordd yr Wyddfa yn 1972. Gwnaeth ei brentisiaid fel taniwr ac yna graddio i fod yn yrrwr un o'r hen drenau stêm. Fo oedd prif yrrwr Moel Siabod, neu *'number five'*, fel y'i hadnabyddir gan hogiau'r Lein, am flynyddoedd maith.

Ei brif ddiddordeb oedd bandiau pres. Roedd yn drympedwr o fri a bu'n aelod o sawl seindorf y fro yn ei ddydd, a da oedd gweld grŵp o Seindorf Llanrug yn cymryd rhan yn ei angladd. Da hefyd oedd gweld cymaint o hen ffrindiau a chyd-weithwyr yn y gwasanaeth yn Eglwys Sant Padarn i ffarwelio ag un o hen gymeriadau y pentref ac un o drigolion gwreiddiol Dôl Elidir.

Cyngor Gwynedd yn gwobrwyo aelodau Llyfrgell

Mae Gwasanaeth Llyfrgell Cyngor Gwynedd newydd lansio cynllun 'Tocyn Triw', sef modd o wobrwyo defnyddwyr llyfrgell rheolaidd.

Bob tro y bydd aelod yn defnyddio'r llyfrgell i fenthyg llyfrau, bydd y cerdyn yn cael ei stampio, ac ar ôl casglu chwe stamp, gellir cyfnewid y Tocyn Triw am daleb sy'n rhoi llu o fanteision i chi, er enghraifft, benthyg DVD neu Gêm Gyfrifiadurol am ddim, £2 tuag at gost argraffu, £2 tuag at gost cais allanol neu fenthyg pecyn dysgu iaith dramor am ddim o'ch llyfrgell.

Dywedodd Nia Gruffydd o Wasanaeth Llyfrgell Cyngor Gwynedd:

'Mae gan lyfrgelloedd Cyngor Gwynedd amrywiaeth eang o wasanaethau y gall ein haelodau wneud y mwyaf arnyn nhw, ac rydym yn gobeithio y bydd y cynllun "Tocyn Triw" yn apelio at rheini sy'n gwneud defnydd cyson o'n llyfrgelloedd cyhoeddus.

'Mae'r "Tocyn Triw" ar gael i bawb, a thra bo stoc ar gael yn unig. Felly, er mwyn gwneud arbedion a chael y gorau o'ch llyfrgell, ewch i'ch llyfrgell rŵan a mynnwch docyn!'

Ewch i'ch Llyfrgell Cyngor Gwynedd leol am ragor o wybodaeth, neu cysylltwch â Nia Gruffydd neu Rhian Parry Evans ar 01286 679465, neu e-bostiwch:

llyfrgell@gwynedd.gov.uk

Ysgol Sul Tan y Coed yn dathlu hanner can mlynedd yn 1951



(Cefn): Eric Humhreys, Rolant ?, Tom Alun Davies, Gwyn Griffith, Gareth Pritchard, Michael Mothersole.
(Ail res): ?, David John Humphreys, Cae'r Maen.
(Trydydd rhes): ?, ?, Gwenda Hughes, ?, Virginia Roberts, ?, Gwyneth Owens, Helen Hughes, Helen Pritchard, Mair Butler.
(Pedwerydd rhes): ?, ?, Olwen Hughes, Dilys Butler, Owena Roberts, Meirion Davies, Brenda Thomas, Rhiannon Morris, Eilian Morris, Carolyn ?.
(Rhes Flaen): ?, Cemlyn Vaughan Williams, Ronnie Humphreys.

Diolch i Meirion Davies, Gerallt, Carmel, am y llun. A all unrhyw un lenwi'r bylchau? Credir y gall sawl aelod o'r un teulu fod yn y llun.

BYSUS RHIWLAS

Bysus bach a mawr ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partïon, tripiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Sue Lowe

odyn copr

66 Stryd Fawr Llanberis

am lyfrau ac anrhegion Nadolig

Ffôn: **01286 871366**

CELF Y COPÄON

MOUNTAIN ART

STRYD FAWR LLANBERIS 870925

Safle Gwe: www.mountainart.co.uk
e-bost: ginger@mountainart.co.uk

★ Am luniau mynyddoedd
★ Peintiadau
★ Printiadau

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i Bawb

Hywel Williams
Aelod Seneddol

Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad

Etholaeth Caernarfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch **01286 672076** i wneud apwyntiad

neu

ysgrifennwch atynt:

Swyddfa Etholaeth
8, Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE

neu

e-bost: **williamshy@parliment.uk**
alunffred.jones@wales.gov.uk

Harddwch eich cartref gyda

FFENESTRI CELTIC *WINDOWS*

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch – 'dio'n costio dim i gael pris

HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG

NHBC

(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

CRONFA'R PENSIYNWYR.
Pêl Bonws Loteri. Enillydd mis Hydref oedd Mrs Mair Orrock, Glanrafon, Rhif 36. Llongyfarchion!
Ffair Nadolig. Cynhelir y Ffair Nadolig nos Iau, 27 Tachwedd yn y Neuadd Gymuned am 6.30 o'r gloch. Bydd amryw o stondinau a raffl. Galwch draw i gael bargen ac ambell anrheg ar gyfer y Nadolig. Bydd Menter Fachwen yno gyda stondin gacennau a bydd cyfle i gael paned a mins pei. Croeso cynnes i bawb.
Cinio Nadolig y Pensiynwyr. Cynhelir y cinio eleni yng Ngwesty Fictoria, Porthaethwy, dydd Sadwrn, 20 Rhagfyr. Bydd y bws yn cychwyn o flaen yr Ysgol am 12.30 o'r gloch a bydd cyfle i ymweld â chanolfan siopa Pringles cyn cychwyn adref. Enwau i Mrs Janet Ash (871265) cyn gynted â phosib, os gwelwch yn dda. Mae croeso i unrhyw un sydd yn dymuno, ddod â ffrind sydd yn byw tu allan i'r pentref efo nhw, ar eu cost eu hunain, sef £16.50.
GENEDIGAETH. Croeso mawr i Cadi Siôn, merch fach a anwyd i Catrin a Siôn Jones, Tyddyn Perthi. Wyres fach gyntaf Janice a Michael, nith i Sioned a Martin a chyfnither fach i Elis.

Llongyfarchiadau i chwi i gyd fel teulu.
PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant Tachwedd a'r enillwyr oedd: Pat Jones, Tai Arthur; Mrs Gwyneth Jones, 25 Bryntirion; Gwilym Roberts, Weirglodd Goch.
NOSON WASAEL AC OCSIWN ADDEWIDION. Cynhelir y noson uchod nos Fercher, **17 Rhagfyr** yn y Neuadd Gymuned am **6.00 o'r gloch.** Ceir eitemau gan blant yr ysgol, Parti'r Waun, aelodau o Fand Deiniolen a darlleniadau a bydd paned, pwnsh a mins pei ar gael. I ddilyn cynhelir yr Ocsiwn gyda Eifion Harding fel Ocsiwniar. Pris £2 i oedolion. Bydd yno Raffl Nadolig ar werth hefyd.
GWELLHAD. Rydym i gyd yn anfon ein dymuniadau gorau at Anti Jean ac yn gobeithio y caiff driniaeth i'w chlun yn fuan. Ein cofion hefyd at bawb sydd ddim yn teimlo'n dda. Brysiwch wella ar gyfer y Nadolig.
LLWYDDIANT. Llongyfarchiadau i John Eifion a Chôr y Brythoniaid ar ddod yn ail agos yng nghystadleuaeth Côr Meibion BBC Cymru yn Neuadd PJ Bangor. Daeth y côr yn ail i Gôr Hogia'r Ddwylan, gyda Chôr Trelawnyd yn drydydd. Roedd deuddeg côr wedi cystadlu. Llongyfarchiadau mawr.
AR Y BRIG. Llongyfarchiadau i Ynyr ac Eurig, sef 'Brigyn', sydd wedi cael caniatad i ganu fersiwn Leonard Cohen o'r Hallelujah' yn Gymraeg a hynny ar gyfer y Nadolig. Gobeithio y bydd yn rhif un erbyn yr Ŵyl. Pob dymuniad da i chi.
YSGOL SUL BOSRA. Fore Sul, 2 Tachwedd, daeth Eurgain Haf, Swyddog Cyhoeddusrwydd yr Elusen, Achub y Plant, i siarad hefo'r plant. Achub y Plant yw'r elusen sy'n mynnu iechyd, addysg a bywyd digonol i filiynau o blant. Mae'r elusen yn gweithio'n ddiflino er mwyn sicrhau bod gan bob plentyn ei hawliau ac mae'n benderfynol o wneud newidiadau pellach a chyflymach. Mae niwmonia yn dal i ladd tua 2 filiwn o blant bob blwyddyn. Gadewir plant tlotaf y byd i farw am fod gwleidyddion wedi anghofio amdanynt.

Bu'r ymgyrch gwau capiau bach yn hynod o lwyddiannus – capiau a all achub bywydau miloedd o blant bach newydd-anedig. Bydd yr elusen yn sicrhau bod neges pob un a fu'n brysur yn gwau yn cyrraedd Gordon Brown – gan danlinellu iddo fod angen gweithredu er mwyn sicrhau achub bywydau a hynny ar frys.

Bu plant yr ysgol Sul yn llunio cerdyn i'w anfon gyda neges bersonol ynddo at Gordon Brown

– 'Hei, Brifweinidog, rhowch rywbeth iddyn nhw ddathlu, gwnewch eich rhan, Gordon Brown, i achub 10 miliwn o blant sy'n marw cyn eu bod yn 5 oed. Plîs rhowch fwy o arian i daclo newyn ymysg plant.

Diolch'

Dymuna Eurgain ddioch i bawb yn y pentref ac yn y fro a thu hwnt am yr ymateb anhygoel i'r ymgyrch gwau hetiau.

Eurgain Haf ac aelodau Ysgol Sul Bosra.

Bydd trip yr Ysgol Sul yn mynd ar y trên bach rownd Llyn Padarn ar fore Sul, 7 Rhagfyr. Bydd Siôn Corn yno gyda'r sach a bydd paned a mins pei i'r oedolion. Bydd y trên yn cychwyn yn brydlon am 10.15.
APÊL Y CAPEL. Bu'r weithgaredd o ddysgu a darllen noddedig yn hynod lwyddiannus gan aelodau'r Ysgol Sul. Casglwyd y swm anrhydeddus o £270.

Dymunir diolch i'r plant a'r athrawon, a diolchir i bawb am noddi mor haelionus.

Yr Ysgol Gymuned

Noson Calan Gaeaf. Cynhaliwyd disgo yn y Neuadd Gymuned nos Fercher, 22 Hydref, gyda Kev Bach o Champion FM. Roedd pawb wedi mwynhau cael gwisgo i fyny a chael cŵn poeth a diod oren. Gwnaed elw o £214 tuag at gael adnoddau i'r ysgol. Diolch i Gyfeillion yr Ysgol am drefnu'r noson.

Ffair Nadolig. Mae Cyfeillion yr Ysgol wedi trefnu Ffair Nadolig ar gyfer nos Iau, 4 Rhagfyr, am 6.30. Bydd amryw o stondinau a gobeithir y bydd Siôn Corn yn galw draw i'n gweld. Croeso cynnes i bawb.
Ymweliad â Pili Palas. Bydd plant dosbarthiadau Meithrin, Derbyn, a Bl. 1 a 2 yn cael cyfle i gyfarfod Siôn Corn yn Pili Palas bnawn dydd Mawrth, 9 Rhagfyr.
Sioe Nadolig. Ein Sioe Nadolig eleni fydd 'Anest yr Angel' ar ddydd Mawrth, 16 Rhagfyr. Cynhelir dau berfformiad, y cyntaf am 1.30 y pnawn, a'r ail am 6.00 yr hwyr. Bydd paned a bisgedi ar gael a gwerthir raffl ar ôl y ddau berfformiad. Pris mynediad fydd: Oedolion £3, pensiynwyr a phlant ysgol uwchradd: £1.50. Bydd y tocynnau ar gael yn yr ysgol – arian gyda'r archeb, os gwelwch yn dda.
Pantomeim 2008. Bore dydd Mercher, 17 Rhagfyr, bydd dosbarthiadau 0 i 6 yn mynd i Theatr Seilo Caernarfon i weld perfformiad o'r panto 'Lleidr Lluniau Porth yr Aur' gan fyfyrwyr Coleg Menai.

Cyfarchion Nadolig
PENISARWAUN a BRYNREFAIL

R.M. (DIC) PARRY
PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL
TAWELFA, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870846
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i ddarllenwyr yr Eco

Nadolig Llawen a diolch am eich cefnogaeth
oddi wrth
Alwyn a Sarah

Blodau Racca
Penisarwaun Ffôn: **870605**

Rithoedd Celyn,
Coed Nadolig, 'Crem Pots' a
Rithoedd Drws.

Basgedi Planhigion,
Trefniadau blodau Silc.

RHODD O'R GALON YW BLODAU

Ymgyrch Plentyn y Nadolig. Galwodd Mr Wyn a Mrs Pauline Owen, sydd yn gweithio gyda'r ymgyrch, yn yr ysgol fore dydd Mawrth, 4 Tachwedd, i roi sgwrs i'r plant. Derbyniwyd 35 o focsys i'w hanfon eleni. Diolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth.

Cinio Nadolig. Bydd Anti Carolyn yn paratoi cinio Nadolig blasus dydd Mercher, 17 Rhagfyr. Mae croeso i'r plant sydd yn arfer cael pecyn bwyd ymuno yn y cinio ar y diwrnod yma.

Sioe Hud. Bore dydd Iau, 18 Rhagfyr, bydd y consuriwr Howard Huws, yn galw yn yr ysgol i berfformio ei Sioe Hud.

Noson Wasael ac Ocsiwn Adddewidion. Mae Pwyllgor y Neuadd yn cynnal y noson yma ar nos Fercher, 17 Rhagfyr, am 6.30 o'r gloch a bydd rhai o blant yr ysgol yn canu yn y côr.

Canu Carolau. Byddwn yn ymweld ag Archfarchnad Morrisons yng Nghaernarfon bnawn dydd Mercher, 10 Rhagfyr, a phnawn dydd Iau, 18 Rhagfyr, rhwng 1.15 a 2.45 o'r gloch; byddwn hefyd yn Archfarchnad Tesco Caernarfon fore dydd Gwener, 19 Rhagfyr, rhwng 10.00 a 12.00 o'r gloch i ganu Carolau er mwyn codi arian i gronfa'r ysgol.

Pedwar o'r disgyblion gyda'u bocsus Nadolig.

CYSTADLEUAETH DYLUNIO POSTERI AR GYFER CLENDR ARBED YNNI. Bu'r disgyblion i gyd yn brysur yn creu posteri ar gyfer y gystadleuaeth hon. Llongyfarchiadau i'r rhai canlynol am ennill gwobrau: *Dosbarth Meithrin:* 1. Efa Baines; 2. Mabli Baines. *Bl.1 a 2:* 1. Ioan Williams; 2. Elin Thomas. *Bl.3 a 4:* 1. Emily Jones; 2. Magi Tudur. Bydd posteri'r enillwyr yn ymddangos yn y Calendr Arbed Ynni a gobeithir eu cael er mwyn eu gwerthu yn y Ffair Nadolig.

Ffonau Symudol Gawn ni apelio am eich cymorth os gwelwch yn dda? Rydym angen casglu 150 o ffonau eto ar gyfer y targed erbyn diwedd mis Rhagfyr er mwyn sicrhau arian ychwnaegol i'r ysgol. Diolchwn i Gyfeillion yr Ysgol am drefnu'r ymgyrch.

Talebau. Rydym yn casglu talebau 'Let's Grow' o Archfarchnad Morrisons. Buasem yn ddiolchgar pe baech yn ein cefnogi yn yr ymgyrch trwy anfon eich talebau i'r ysgol.

DYSGU AM OLRHAIN HANES TEULU

Gyda nifer o raglenni teledu bellach yn ymddiddori mewn olrhain hanes teulu, mae mwy a mwy o bobl yn dangos diddordeb mewn llunio eu coeden deulu eu hunain. Mae'n debyg felly y bydd cyrsiau undydd gan Wasanaeth Archifau Cyngor Gwynedd, a fydd yn rhoi arweiniad i bobl am sut i fynd ati i gychwyn olrhain eu hachau yn boblogaidd iawn.

Bydd y cyrsiau undydd, a fydd yn cael eu cynnal yn Archifdy Caernarfon, yn cael eu harwain gan staff arbenigol y Cyngor a fydd yn rhoi canllawiau ar sut i gychwyn olrhain hanes eich teulu. Bydd cyfle i rheini fydd yn mynychu'r cyrsiau edrych ar wahanol fathau o ffynonellau a thystiolaeth, yn ogystal â siawns i holi'r Archifyddion gydag unrhyw gwestiynau am y maes.

Dywedodd Lynn Crowther Francis, Uwch Archifydd gyda Chyngor Gwynedd:

'Rydym yn gobeithio y bydd y cyrsiau hyn yn gyfle i unrhyw un sydd â diddordeb mewn olrhain hanes eu teulu i weld yr holl gofnodion hanesyddol diddorol sydd ar gael, ac fod cyfle arbennig iddynt wneud defnydd o'r cyfleusterau yma yn archifau Cyngor Gwynedd.

'Mae cyrsiau tebyg sydd wedi eu cynnal yn y gorffennol wedi profi'n boblogaidd iawn, ac rydym yn hyderus y bydd nifer o aelodau'r cyhoedd yn awyddus i archebu lle ar y cyrsiau yma hefyd. Felly cofiwch archebu lle os ydych chi'n awyddus i fynychu un o'r cyrsiau. Y cyntaf i'r felin.'

Cynhelir y cyrsiau ar y dyddiadau canlynol:

- Dydd Llun, 8 Rhagfyr 2008: Cwrs Hanes Teulu (Cymraeg) Lleoliad: Archifdy Caernarfon. Amser: Cwrs diwrnod yn cychwyn am 10.30am
- Dydd Llun, 19 Ionawr 2009: Cwrs Hanes Teulu (Saesneg) Lleoliad: Archifdy Caernarfon. Amser: Cwrs diwrnod yn cychwyn am 10.30am.

Mae'n angenrheidiol archebu lle ar y cyrsiau. Os am archebu cysylltwch â:
Gwasanaeth Archifau Cyngor Gwynedd ar (01286) 679095/ 679092 (Caernarfon); (01341) 424681 (Dolgellau), neu ebostiwch: archifau.caernarfon @gwynedd.gov.uk

Cofnogwch ein Hysbysebwyr

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD.
Oedfaon Rhagfyr
7: am 2.00, Y Parch Gwenda Richards, Caernarfon
14: am 5.30, Mr John H. Hughes, Llanberis
21: am 2.00, Y Parch Harri Parri, Caernarfon. Oedfa arbennig i ddathlu'r Nadolig, gyda lluniaeth i ddilyn
28: am 5.30, Mr Richard Lloyd Jones, Bethel.

Efe

Ar dudalen flaen rhifyn diwethaf yr *Eco* croesawyd gweithiwr newydd Cynllun Efe atom i'r fro. Mae Andrew Settatree yn dechrau dod i adnabod yr ardal a'i phobl.

Cynhelir oedfa arbennig yng Nghapel y Rhos, Llanrug, am 7.00 o'r gloch, nos Lun, Rhagfyr 1, er mwyn croesawu Andrew yn swyddogol a'i gomisiynu i waith Cynllun Efe. Mae croeso cynnes i bawb i ddod i'r oedfa honno. Byddai'n braf iawn gweld cymaint â phosibl o bobl o bob oed yn y cyfarfod hwn.

Bydd yn gyfle i bawb gyfarfod ag Andrew a chael dymuno'n dda iddo ar ddechrau gwaith Efe. Edrychwn ymlaen at groesawu cefnogwyr y Cynllun ac unrhyw un sy'n awyddus i weld llwyddiant y gwaith Cristnogol hwn ymhlith pobl ifanc ein hardal. Dowch yn llu.

Ceir anerchiad gan Mr Arfon Jones, Caerdydd, un o ffrindiau Andrew. Arfon Jones sy'n gyfrifol am beibl.net, y wefan sy'n cynnwys cyfieithiad o'r Testament Newydd mewn iaith lafar, ac adnoddau eraill ar gyfer pobl ifanc sydd eisiau gwybod am y Beibl a'i neges. Ar un cyfnod, rai blynyddoedd yn ôl, roedd Arfon yn byw yn y Waunfawr. Bydd yn braf ei groesawu'n ôl i'r ardal.

Erbyn hyn, mae Andrew'n byw yn Llanrug, a dymunwn yn dda iddo yn y Gwasanaeth Comisiynu ac yn ei waith dros y blynyddoedd nesaf.

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol
TROS-Y-WAEN PENISARWAUN
Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethy Yr Holl Ardal
Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

Hefyd

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrhaethwch Mewn Steil Mewn Cerbyd *Rolls Royce*
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

Nadolig Llawen
A Blwyddyn Newydd Dda
i holl ddarllenwyr yr Eco

Hoffwn ddiolch i'n cwsmeriaid lleol am eu cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn!

Caban cyf

Caffi Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail
www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

CHWILOTA
MWY O HEN ENWAU

YN rhifyn Hydref o'r *Eco* soniais am enwau sydd wedi hen ddiflannu o'r cof ac yn aml iawn o gofnodion ysgrifenedig diweddar. Bu cryn adborth i'r erthygl fer honno am gaeau a mân ffermydd a thyddynnod sydd wedi diflannu – neb, wrth gwrs, yn gallu cynnig lleoliad i unrhyw un ohonynt, ond yn dangos diddordeb yn yr hen enwau.

Yn ystod y mis diwethaf daeth Cyfrol 69 o *Drafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon* o'r wasg, ac yn yr erthygl gyntaf yn y gyfrol mae Dr Glenda Carr yn trafod enwau lleoedd ym mhlwyfi Arfon. Mae un rhan o'r erthygl yn trafod enwau sy'n dynodi perchnogaeth ar eiddo. Mae llawer o'r enwau hyn, wrth gwrs, yn cyfeirio at berchnogaeth gynnar iawn yn hanes yr eiddo, ac nid yw'n bosibl darganfod dim am y perchennog hwnnw erbyn heddiw. Ond mae eraill, fel Ieuan Llwyd y soniais amdano yn ardal Castellmai, a roes ei enw i annedd Rhuddallt maes o law, y gallwn ddarganfod peth gwybodaeth amdanynt.

Bu cryn holi yn y gorffennol am yr enwau Madog a Hywel yn yr ardal o Frynrefail i Benisarwaun. Pwy oedd y Madog a roes ei enw i Bryn Madog a Llwyn Madog? Pwy oedd yr Hywel a fu'n gyfrifol am Pant Hywel, Cae Hywel a Waun Hywel? Does dim sicrwydd pendant pwy oeddynt, ond yn ddiweddar deuthum ar draws dogfen gyfreithiol yn sôn am ddaliadau tir yn agos i Ddinas Dinorwig. Mae'r ddogfen yn dyddio o 1573, ac enwir tri thyddyn, sef Tyddyn Ieuan ap **Madog** ap Iorwerth, Tyddyn **Hywel** ap Meredydd a Thyddyn Kennante (Ceunant?). Tybed a oedd a wnelo'r bobl hyn â'r tiroedd sy'n cario'r enwau heddiw?

Fel y gellir disgwyl o astudio dogfennau sy'n dyddio'n ôl bum can mlynedd, nid yw'r sillafiad bob amser yn gwneud fawr o synnwyr, yn enwedig o gofio nad Cymry, mae'n debyg oedd yn gyfrifol am lunio'r dogfennau cyfreithiol. Ond mae rhai yn parhau'n ddealladwy, ac y mae'r enwau'n dal mewn bod heddiw. Dyna i chwi ddogfen o tua 1550 sydd unwaith eto'n sôn am ddaliadau tir yn ardal Dinas Dinorwig, ac yn cael eu dal ar lês gan rhyw Huw Lewis. Fel hyn mae'r eiddo'n cael ei ddynodi: Toure penryn Dinorwicke, Tuthin in Yvathell, Y coyd bolyn, a tythyn in y lloyn.

Does wybod beth yw'r enw cyntaf, er fod fferm o'r enw Penrhyn yn ardal y Crawia, ac yn weddol agos i Ddinas Dinorwig ar hyd Lôn Cae Meta fel yr hed y frân. Gellir lleoli'r ail fel Tyddyn yn y Fachell. Ystyr gwreiddiol Bachell yw cilfach fechan. Felly, roedd tyddyn mewn cilfach fechan yn agos at Ddinas Dinorwig. Erbyn heddiw Y Fachell yw'r enw, ond gellir gweld ei fod mewn cilfach yng nghysgod y boncan rhwng tafarn y Gors Bach a'r ffordd sy'n troi am Seion.

Yr ail dyddyn yw'r Coed Bolyn presennol, a'r trydydd yw Tyddyn Llwyn. Yn yr un ddogfen ceir cyfeiriad at Erw Dafydd ym mhlwyf Llanrug, ond does wybod ble roedd y lle hwnnw erbyn hyn.

Mae dogfen arall dyddiedig 1595 yn sôn am eiddo yn Y Rug, sef yr ardal rhwng Eglwys Llanrug a Phontrug. Mae'r enwau i gyd wedi diflannu erbyn heddiw, gwaetha'r modd, a methais a'u darganfod hyd yn oed yn enwau ar gaeau yn yr ardal. Daliadau ym mherchnogaeth rhyw Richard Budd oedd y rhain i gyd, ac mae'n bosibl mai Sais o dref Caernarfon oedd hwnnw. Dyma'r enwau: coedlan o'r enw Gwarrowe; tyddyn o'r enw Kenrick Glewithell; pandy Iorwerth With; Allt Mathew a Mawnog Allt Tibbot yn Essingreg.

Prin yw'r cyfeiriadau am Lanberis, ond o'r un cyfnod deuthum ar draws sôn am Wauncwmbrwynog yn Nolbadarn (nid Llanberis sylwch). A'r hyn sy'n ddiddorol yw fod cyfeiriad yn y ddogfen at y ffaith nad oes gwybodaeth ynglŷn â'i maint, dim ond dweud fod yma borfa eang i wartheg. Na, doedd defaid ddim mor bwysig a hynny yn y cyfnod hwnnw. A diddorol yw sylwi fod gwartheg unwaith eto yn pori'n uchel yn yr un ardal erbyn heddiw.

Mae'r ddogfen olaf, sy'n dyddio o 1584, yn mynd a ni'n ôl i waelodion plwyf Llanddeiniolen a'r terfyn â phlwyf Llanfairisgaer. Enwir nifer o dyddynnod, a'r rhan fwyaf ohonynt yn ardal Crug. Dyma'r enwau: Tyddyn Kyn Vongam, Tyddyn y Wern gwtta, Tyddyn Einion ap Gwian, Cae Duon Crug, Cae y Crug a Thir Einion Iorwerth. Enwir hefyd Tyddyn Crach y bwch – ond darllenwch erthygl Dr Glenda Carr am fwy o wybodath am yr enw anghyffredin hwnnw!

Eisteddfod yr Urdd – Bangor: 1934

Cafwyd cryn ymateb i'r hanes am Eisteddfodau Cenedlaethol Urdd Gobaith Cymru yn ystod y 1930'au gan nifer o ddarllenwyr oedd yn cofio mynychu'r digwyddiadau rheini. Yn ddiweddar deuthum ar draws llun tair o enethod o Gaeathro a fu'n fuddugol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a gynhaliwyd ym Mangor yn 1934. Genethod ydynt a wobrwywyd yn y gystadleuaeth i driawdau. Roedd triawd Caeathro yn drydydd ar y llwyfan, yn canu 'Clychau Aberdyfi'. Ac o bump o gorau a ymddangosodd ar y llwyfan (cyfyngedig i adrannau bychan), daeth Caeathro yn drydydd.

Ond yn y cystadlaethau cartref – llên a barddoniaeth y gwnaeth plant y pentref hwn eu marc.

Daeth Katie Wellstead, Caeathro, yn drydydd yn y gystadleuaeth ar ysgrif fywgraffyddol, ac yn gydradd gyntaf ar sgwennu stori antur. Daeth y ferch hon hefyd yn ail yn arholiad y goron ar y testun 'Cymru a'i Phobl', gyda merch arall o Gaeathro – Ceridwen Jones, yn drydydd. Roedd brawd Katie, sef David, yn ail dan 15 oed ar ysgrifennu ar y testun 'Cartrefi Cymru', ac o dan 12 oed, bu bron i Adran Caeathro ennill y cyfan, gyda Rhian Hughes yn gyntaf a Cassie Jones yn ail. Mor gynnar â hyn yn hanes yr Urdd, roedd cystadlaethau i ddysgwyr Cymraeg, a merch o Gaeathro oedd yn fuddugol, sef Patience Mitchell.

Ceir enwau eraill o bentrefi'r fro yn ymddangos ymhlith yr enillwyr hefyd. Phyllis May Jones o Lanberis oedd yn fuddugol ar sgwennu drama mewn pedair act o'r nofel *Nedw* gan E. Tegla Davies. Roedd y gystadleuaeth hon yn gyfyngedig i gyn-aelodau'r Urdd; sy'n awgrymu eu bod yn hŷn na'r oedran ymaelodi. Un arall o Lanberis a fu'n llwyddiannus oedd Priscilla Thomas, a ddaeth yn drydydd ar y stori antur, a daeth John G. Williams o Frynrefail yn gyntaf dan 10 oed ar 'Y Llong Lo' allan o *Lyfr y Dyn Du*.

Triawd Caeathro, sef Betty Roberts, Rhian Hughes a Katie Wellstead gyda'u medalau'n cael eu harddangos.

Enillwyd nifer helaeth o wobrwyon yn yr adran Celf a Chrefft gan adrannau Penygroes, Cricieth a Chaeathro eto, ond yn anffodus, methais â chael enwau'r buddugwyr yn yr adrannau hyn.

Tybed pwy oedd yr egin lenorion ifanc hyn yn y 1930'au cynnar, a beth ddaeth ohonynt yn ddiweddarach? Cofiwch anfon unrhyw wybodaeth neu luniau o'r cyfnod.

Croniclwr Cyfnod y Rhyfel

Yn ôl i Gaeathro, a sylw i un o drigolion presennol y pentref, sef Reg Chambers Jones. Gŵr prysur yn chwilota i hanes ardal dipyn ehangach na bro'r *Eco*, ac eisoes yn awdur nifer o lyfrau poblogaidd. Y mis hwn, daeth y gyfrol *Anglesey and Gwynedd – the War Years 1939–45* o'r wasg. Mae'n croniclo digwyddiadau yn ymwneud â'r Ail Ryfel Byd yng ngogledd-orllewin Cymru, ac yn llawn lluniau nas cyhoeddwyd o'r blaen. Ynddo cewch hanes yr Home Guard – a lluniau'r dewrion rheini o Benisarwaen a Nant Peris. Mae yn y llyfr hefyd wybodaeth am gwmni NICACO yn Llanberis a'r gwaith o storio ffrwydron yn chwarel Glynrhonwy. Dyma gyfrol gwerth pori ynddi a chyfrol sy'n dod â chyfnod y rhyfel yn ein hardal ni yn fyw.



J.M. JONES
a'i Feibion
LLANRUG
Gwaith Coffaol
Ffon Gwaith
01286 672898
Cartref
01248 679089
Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA



Clawr cyfrol ddiweddaraf yr awdur o Gaeathro.

Anrheg Nadolig gwerth chweil.

Cyhoeddir y gyfrol gan Bridge Books, Wrecsam, ac y mae perchennog y wasg honno â chysylltiadau agos â'r fro hefyd, gan i Alastair Williams dreulio rhan o'i blentyndod ym Mlastirion, Llanrug.

Cwta bythefnos nes i'r rhifyn nesaf o'r *Eco* ddod o'r wasg cyn y Nadolig, felly does fawr o amser i ymateb i unrhyw beth yng ngholofn y mis hwn. Ond cofiwch gysylltu ynglŷn ag unrhyw agwedd o hanes bro'r 'Eco', gan anfon eich sylwadau neu eich ymholiadau i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y nant, Llanrug, Caernarfon. (Ffôn: 01286 673515).

UN FUNUD FACH

PEDWAR GAIR BACH

Petha difyr iawn ydi *trailers*. Rwy'n eitha hoff o'u gwylio. Nid y trelars bach a mawr sy'n cael eu tynnu gan gar neu gerbyd 4x4, ond *trailers* ffilm a rhaglenni teledu. 'Rhagluniau' ydi'r gair Cymraeg am betha felly, mae'n debyg: pytiau o'r ffilm neu'r rhaglen i roi rhagflas o'r hyn sy'n dod. Fe gewch chi nifer ohonyn nhw cyn y brif ffilm yn y sinema. Ac maen nhw'n cael eu defnyddio ar ddiwedd penodau unigol rhai cyfresi teledu. Bydd ambell gyfres yn dangos cymaint o ddigwyddiadau'r bennod nesaf o fewn y rhaglun fel nad oes raid i neb wylio'r rhaglen honno er mwyn gwybod beth sy'n digwydd nesaf yn y stori.

Rhaglun ydi'r golofn hon y mis hwn. Ia, rhifyn Rhagfyr yr *Eco* ydi hwn, ond mae'n gynnar i ddechrau sôn llawer am y 'Dolig. Wedi'r cwbl, bydd gennym rifyn arall eto cyn y Nadolig. Dros y mis nesaf, daw cyfle i ddweud rhywbeth am ryfeddod yr ŵyl mewn pregeth ac erthygl ac anerchiad. Felly dyma raglun yn unig a fydd, gobeithio, yn codi awydd arnoch i fynd i oedfa neu i ddarllen rhywbeth a fydd yn help i chi ryfeddu o'r newydd at neges fawr y Nadolig eleni.

Pedwar gair bach yw'r rhaglun: pedwar gair bach o bennod gyntaf Efengyl Mathew. Ond maen nhw'n bedwar gair bach pwysig. Dros yr wythnosau nesaf, cewch chi a minnau ein gwahodd o bob cyfeiriad i feddwl am y Dolig. Ac nid sôn am yr holl firi masnachol wyf fi, chwaith, ond am y galwadau a ddaw i ni gofio baban bach y preseb. Fe'n gwahoddir i ystyried digwyddiadau'r Nadolig o'r newydd, gan ddefnyddio'n dychymyg a chymhwyso'r hanes ar gyfer degawd cyntaf yr Unfed Ganrif ar Hugain. Bydd rhai am i ni ddehongli'r stori mewn ffyrdd gwreiddiol, neu chwilio am ystyron newydd i'r gwahanol ddelweddau. Bydd eraill am i ni chwilio am fynegi a diffinio neges yr ŵyl mewn ffyrdd trawiadol a chofiadwy.

Ond beth bynnag a ddywedwn o hyn i fore'r Nadolig, bydd y cyfan, gobeithio, yn cydio wrth bedwar gair bach y rhaglun hwn. Fe wnawn nhw destun pregeth, ond byddant hefyd yn sail i bopeth a ddywedaf am yr ŵyl fendigedig hon mewn oedfa ac erthygl eleni eto.

A'r pedwar gair? 'Fel hyn y bu'.

JOHN PRITCHARD

Am gymorth:
- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli

MANTELL GWYNEDD
Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

cysylltwch â Mantell Gwynedd
– yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575
Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfynedig drwy Warant 3420271

Mae pobl dros 50 oed yn ymddiried yng nghynhyrchion a gwasanaethau Age Concern

Yswiriant Cartref
Yswiriant Cerbydau a Diffyg ar y Modur
Yswiriant Teithio
Cynllunio Angladd
Cyflenwadau Trydan a Nwy

Am fwy o wybodaeth ymwelwch â ni yn:
Age Concern Gwynedd a Môn
Ty Selont, Ffordd Santes Helen
Caernarfon, Gwynedd LL55 2YD
01286 678310
gan ddyfynnu'r cyfeirnod: ALL700

AGE Concern

Os byddwch yn cysylltu a swyddfa Age Concern, byddwch yn ymwneud a chynrychiolydd penodedig o Age Concern Enterprises Limited (ACEnt). Mae ACEnt wedi ei awdurdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA) ar gyfer cyfryngiad yswiriant. Mae'r Age Concern uchod yn elusen gofrestredig

A46V4AWST07 MC1178

Dylunio / Design
Cyfryngau / Media
Arddangosfeydd / Exhibitions
Safweoedd / Websites



cread cyf
gwasanaeth dylunio / cyfryngau
design / media service

t - 01248 713437
m - 07867 976183
e - post@creadcyf.co.uk
w - www.creadcyf.co.uk

ll61 5an

YSGOL BRYNREFAIL

Pêl-droed Cwpan Eryri

Bu newyddion da i enethod Brynrefail wrth i'r tîm o dan 14 fod yn fuddugol yn erbyn Ysgol David Hughes yng Nghwpan Eryri. 7–1 oedd y sgôr terfynol i'r genethod, gyda Mari Gibbard a Katie Roberts yn sgorio dwy gôl yr un ac Elain Roberts a Hanna Tulliver hefyd yn canfod y rhwyd.

Roedd yna fuddugoliaeth hefyd i dîm o dan 13, eto yng Nghwpan Eryri, wrth iddynt ennill yn erbyn Ysgol Syr Thomas Jones gyda Chloe Roberts a Mari Gibbard yn sgorio.

Nid oedd yna gymaint o newyddion da i dîm o dan 12 y bechgyn wrth iddynt golli ar giciau o'r smotyn wedi cael gêm gyfartal 4–4 yn erbyn Ysgol Syr Hugh Owen. Bu i Tomos Saynor sgorio dwy a William Gwynedd a Dylan Thomas ychwanegu un yr un i Brynrefail yn ystod y gêm.

Roedd newyddion gwell i dîm o dan 14 y bechgyn wrth i goliau gan Guto Griffith a Tomos Williams sicrhau buddugoliaeth o 2–0 yn erbyn Dyffryn Nantlle. 4–0 oedd y sgôr i dîm o dan 16 y bechgyn wrth i Gethin Maxwell, Richard Cashman, Gwion Williams a Dyfan Coles sicrhau buddugoliaeth gyfforddus yn erbyn Dyffryn Nantlle.

Rygbi o dan 16

Cynhaliwyd tair gêm i dîm o dan 16 Brynrefail gyda buddugoliaeth agos o 24–21 yn erbyn Amlwch, ond colli oedd eu hanes yn erbyn Bodedern o 63–0. Roedd newyddion gwell, fodd bynnag, yn erbyn Ysgol David Hughes wrth i'r tîm ennill 46–0 gyda 3 cais gan Louis Williams, 2 gais a 2 drosgais gan Gethin Maxwell, 2 gais gan Lee Davies, 1 cais gan Gwilym Rhys a 1 trosgais gan Gwion Williams.

Ymweliad y Chweched Dosbarth â Glan Llyn

Ar ddydd Iau, y trydydd ar ddeg o Dachwedd, cychwynnodd deg ar hugain o ddisgyblion y chweched dosbarth sy'n astudio Cymraeg i Lan Llyn yn y bore bach. Wedi cyrraedd yno cawsom wrando darlithoedd amrywiol yn ystod y dydd a chymryd rhan mewn gweithdai ysgrifennu. Cafodd disgyblion blwyddyn tri ar ddeg fodd i fyw yn gwrando ar Emyr Llywelyn yn adrodd am anturiaethau Dafydd ap Gwilym yn y cywydd 'Trafferth Mewn Tafarn'. Efallai mai'r uchafbwynt i flwyddyn deuddeg oedd y cyfle a gawsant i sgriptio un o straeon byrion Bethan Gwanas dan arweiniad yr awdures, Manon Wyn.

Er ein bod i gyd yn teimlo'n flinedig ar y bws ar y ffordd adref, y farn gyffredinol oedd ein bod wedi cael diwrnod hynod o ddifyr a buddiol.

Gweithdy Barddoniaeth

Ar ddechrau mis Tachwedd aeth criw o ddisgyblion blwyddyn 11, sy'n astudio Llenyddiaeth Gymraeg at safon TGAU, i'r Galeri yng Nghaernarfon am y prynhawn. Yno cawsom wrando ar ddau brifardd yn trafod cerddi'r cwrs, sef Meirion MacIntyre Huws ac Iwan Llwyd. Roedd gwrando ar ddehongliad y beirdd o'r cerddi yn werthfawr iawn ac efallai mai'r hyn oedd fwyaf diddorol oedd dysgu am yr hyn oedd ganddynt hwy mewn golwg wrth ysgrifennu eu cerddi eu hunain sydd ar y cwrs, sef 'Gwawr', 'Tai Unnos' ac 'Ynys Afallon'. Diolch i Gwen Lasarus am drefnu'r digwyddiad.

Rydym yn falch iawn o un o ddisgyblion blwyddyn 9 eleni. Aeth Megan Lloyd, 9E ar daith anhygoel ym mis Hydref i Nepal. Llongyfarchiadau, Megan, am gwblhau'r sialens, rydym yn dy edmygu yn arw. Dyma ychydig o hanes y daith yng ngeiriau Megan.

Ar y pedwerydd o fis Hydref, hedfanais i gyda fy nhad a nhaid i Kathmandu yn Nepal. Pwrpas y daith oedd i gyrraedd Base Camp Everest. Bob nos roeddem yn aros gyda'r bobl lleol yn eu cartrefi. Cyrhaeddom ni'r Base Camp ar ôl deg diwrnod o drecio, ac aeth banner Cymru hefo ni! Tra yn Base Camp cawsom ni'n gwahodd i yfed te hefo tîm o Nepal oedd yn ymdrechu i ddringo i gopa Everest. Roedd hyn yn un o uchafbwyntiau'r daith i mi. Hefyd, dringom ni'r mynydd, Kala Patthar, a copa'r mynydd hwn oedd y pwynt uchaf aethom ni – dros 5600 o fedrau. Ar y ffordd i lawr, aethom dros y Cho-la pass uchel, a dringo mynydd arall, Gokyo-Ri.

Does gan y bobl yn yr ardal yma ddim llawer, heblaw am eu cymunedau a'u hapusrwydd. Mae'r daith wedi bod yn brofiad anhygoel, yn enwedig i mi. Diolch yn fawr i Ysgol Brynrefail am ei holl gefnogaeth i'r daith. Rwy'n gobeithio mynd yn ôl yn y dyfodol.

MEGAN LLOYD, 13 OED

Parti Pendalar

Yn dilyn llwyddiant 'Parti Pendalar' y llynedd, enwebwyd dau ddisgybl o'r chweched, Bethan Williams ac Iwan Williams, i dderbyn gwobr *'Nationwide Community and Heritage'* ar ran gwaith caled y chweched.

Ar ddiwedd tymor yr haf aeth Sara ac Iwan i Gaerdydd i dderbyn y wobr, sef tlws a thalebau hamdden.

Llongyfarchiadau i bawb o'r chweched am eu gwaith clodwiw.

Eisteddfod Bentref Llanrug a Chwm y Glo

Ar y pedwerydd ar ddeg o Dachwedd cynhaliwyd yr eisteddfod hon yn Neuadd Ysgol Brynrefail. Braf oedd gweld holl fwrlwm y cystadlu a llongyfarchwn bawb a gymerodd ran. Testun balchder i ni oedd canlyniad seremoni'r Orsedd, ble gwobrwywyd y prif lenor hŷn ac iau. Yn fuddugol ym mlynyddoedd 3–9 oedd Ffion Erin Williams. Mae Ffion yn ddisgybl ym mlwyddyn 9. Mae hi'n ddarllenwraig frwd a'i hoff awdur yn y Gymraeg yw Bethan Gwanas. Yn ystod ei hamser hamdden mae hi'n mwynhau chwarae pêl-droed i dîm yr ysgol. Hi hefyd enillodd Dlws yr Ifanc yn Eisteddfod yr Ysgol yn ddiweddar. Enillydd y Gadair oedd Siôn Emyr. Mae Siôn yn ddisgybl ym Mlwyddyn 13 ac yn astudio'r Gymraeg, Hanes a Drama. Yn ystod ei amser hamdden mae'n mwynhau cerddoriaeth o bob math, cymdeithasu a pherfformio. Llongyfarchiadau i'r ddau ohonynt ar eu llwyddiant.

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

DEINIOLEN

Mrs Nia Gruffudd Ffôn: (872133)

(Cefn): Hilda, Douglas, Meurig, Glyn, Meirion, David, Alwyn, Neville, Mair.
(Blaen): Joyce, Hilda, Jennifer, Gwenda, Ann, Iris, Marion a Glenda.

Tair o gyn-athrawon Ysgol Gwaun Gynfi: Mrs Nancy Edwina Jones, Mrs Nancy Patricia Jones a Miss N. Wyn Jones.

Noson i Rannu Atgofion

Nos Sadwrn Tachwedd y 1af, mwynhawyd noson ardderchog yng Ngwesty Dolbadarn Llanberis. Cyfarfu criw o hen ffrindiau sy'n dathlu eu pen-blwydd yn 60 eleni. Roeddynt i gyd yn gyn-ddisgyblion o Ysgol Gwaun Gynfi Deiniolen, neu, fel y'i gelwid bryd hynny 'Deiniolen Central School'. Roedd nifer o'r criw wedi teithio cryn bellter – o dde Cymru, Bryste, Lerpwl ac un yr holl ffordd o'r Almaen.

Bu hen sgwrsio gydol y nos a rhannwyd atgofion, darluniau a dogfennau o'r cyfnod. Paratowyd gwledd arbennig gan Mr Aneurin Jones a diolch iddo am ei groeso cynnes. Gwerthwyd raffl, gan wneud elw o £60, sydd bellach wedi ei gyflwyno i'r ysgol. Ond yr hyn oedd yn wirioneddol braf oedd cael cwmni tair o gyn-athrawesau'r ysgol, sef Miss Wyn, Dinorwig; Mrs Nansi Patricia Jones, Abergele a Mrs Nansi Edwina Jones, Penisarwaun. Doedd rhai ohonom ddim wedi gweld ein gilydd ers 53 o flynyddoedd ond diolch am noson i'w chofio. Fel hyn y cyflwynodd Miss Wyn a Mrs Nansi Edwina Jones benillion i'n cyfarch.

* * *

Wn i ddim pwy gadd y syniad
O wahodd pawb heno ynghyd.
'Rôl dros hanner cant o
flynyddoedd
Mae'n anodd eich nabod chi i gyd.
Ond diolch yn fawr, er hynny,
Am gofio HEN BOBL fel ni,
Am gyfle i hel atgofion,
A rhannu pryd bwyd hefo chi.

Mor braf oedd byw erstalwm,
A chithau i gyd yn blant bach.
Weithiau'n crio isio mynd adre,
Dro arall yn chwerthin yn iach.
Roedd rhai yn lecio gwneud
symiau,
A'r lleill eisiau llyfrau o hyd.
Rhai'n meddwl am ddim ond
chwarae,
A rhai eisiau gwneud dim byd!

'Da'ch chi'n cofio te parti Dolig?
A Sion Corn yno'n ei siwt goch?
Chithau'n eistedd yn swil ar ei lin o,
A rhoi cusan slei ar ei foch.
Beth hefyd am Ddrama'r Geni?
Pob hogan eisiau bod yn Mair.
Ond mul oedd un o'r hogiau am fod
Er mwyn cael dodjio'n y gwair.

Wrth edrych o gwmpas heno
Yr hyn sy'n ein taro yn syn
Cofio'ch bod chi'n chwe deg 'leni!
Mae'n anodd i ni gredu hyn.
Chi'n mynd i godi'ch pensiwn!
Mynd ar fysus heb dalu. 'Rioed!
Ond plant fyddwch am byth i ni
Cofiwch. Beth bynnag eich oed.

DYMUNA Stephen, Emma, Daniel a Jessica, 1 Gwyrfai Terrace, a Mrs Nansi Morris, 93 Pentre Helen, ddiolch o galon i'w perthnasau, cyfeillion a chymdogion am yr holl garedigrwydd a chefnogaeth a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth fawr o golli gwraig, mam a merch arbennig. Gwerthfawrogir y llu cardiau, ymweliadau a glawadau ffôn a'r rhoddion hael a dderbyniwyd at Ward Alaw. Gwerthfawrogir yn fawr hefyd y caredigrwydd gafodd Pat yn ystod ei gwaeledd. Diolch yn arbennig i'r Parch John Pritchard am ei ofal a'i gyfraniad yn y gwasanaeth, hefyd i Mr Gareth Jones am ei wasanaeth fel organydd ac i Mr Gwynfor Jones o E.W. Pritchard am y trefniadau trylwyr a theimladwy.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Cyfarfu'r aelodau yn Nhŷ Elidir mis Hydref a chroesawyd pawb ynghyd gan y Llywydd, y Parch John Pritchard. Y gŵr gwadd oedd Mr Gari Wyn, Pentir a chafwyd sgwrs ddiddorol ganddo am rai o ddigwyddiadau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Diolchwyd iddo yn gynnes gan Mrs Margaret Cynfi Griffith.

MERCHED Y WAWR. Estynnwyd croeso i aelodau'r gangen i gyfarfod mis Tachwedd gan Lona, yr Is-Lywydd, ac anfonwyd cofion at aelodau oedd wedi bod yn wael yn ddiweddar. Cyfeiriwyd yn arbennig at Mrs Alice Griffith, sydd wedi cael damwain ac wedi torri asgwrn yn ei throed.

Darllenwyd llythyr o Bwyllgor yr Anabl gan Iona, yr ysgrifennydd.

Da oedd clywed fod tri thîm o'r gangen wedi cymryd rhan yn y Cwis Hwyl Cenedlaethol a gafodd ei gynnal yn Meifod, Y Bontnewydd yn ddiweddar. Bydd nifer o'r aelodau yn cymryd rhan yn y twrnament Bowlio Deg a gynhelir yn Glasfryn, ger Pwllheli ar 16 Ionawr.

Y wraig wadd oedd Mari Emlyn o'r Felinheli sy'n adnabyddus ledled Cymru. Sgwrs ddifyr iawn oedd ganddi am lythyrau ei hen daid, O.M. Edwards. Soniodd am y naw mil o lythyrau a ysgrifennodd O.M. Edwards at ei wraig, Elin, ac hefyd am y llythyrau a ysgrifennoddd at Elin Morgan, oedd yn byw yn y Wladfa. Difyr dros ben oedd gwrando arni a chlywed am y gwaith ymchwil mawr a wnaeth i'r pwnc ac am ei hymweliad â'r Wladfa. Diolchwyd iddi ar ran yr aelodau gan Buddug.

Bydd rhai o'r aelodau yn mynd i'r Garddfôn, Y Felinheli i fwynhau cinio Nadolig. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 19 Ionawr pryd y disgwylir Menna Medi o gwmni Sain atom.

DYMUNA Emyr, Marian a Gwynedd, 1 Bron Helen, Clwt-y-bont, ddiolch o galon am y cydymdeimlad a'r caredigrwydd a ddangoswyd iddynt yn dilyn eu profedigaeth o golli Joan. Diolch hefyd am y rhoddion hael a dderbyniwyd at Gymdeithas Deillion Gogledd Cymru.

CYMDEITHAS CYFEILLION EGLWYS CRIST. I Groeslon Tŷ Mawr yr aeth yr aelodau am eu swper Diolchgarwch eleni. Yno, cyflwynodd y Parchedig Robert Townsend y gŵr gwadd, sef Archddiacon Bangor, Meurig Llwyd. Yr emyn 'Tydi a roddaist' gan T. Rowland Hughes a'r dôn 'Arwelfa' gan Arwel Hughes a gyfansoddwyd ar Orsaf Amwythig yn 1938, oedd testun sgwrs Meurig Llwyd, ac arweiniodd ac eglurodd i ni gyfraniad yr emyn a ddaeth mor boblogaidd drwy Gymru. Diolchwyd iddo am ei sgwrs ac i'r aelodau a drefnodd y noson.

Yng nghyfarfod mis Tachwedd, y gŵr gwadd oedd Mr John Hughes o Lanberis, cyn-Brifathro Ysgol Dolbadarn. Soniodd am y cyfnod pan oedd yn athro yn Ysgol Penmachno, nepell o'r Wybrnant, cartref yr Esgob William Morgan ac am blant presennol yr Wybrnant a ddeuai i'r ysgol. Siaradodd yn drawiadol iawn am chwedloniaeth yr ardaloedd yma.

Diolchwyd yn y ddau gyfarfod gan Mr Brian Price. Diolch am fodolaeth y Cymdeithasau hyn yn ein hardaloedd sydd yn rhoddi cymaint o bleser a mwynhad inni.

Dymuna **DAFYDD** a staff

Y TARW (Bull Inn)

DEINIOLEN

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
I'W CWSMERIAID A FFRINDIAU OLL

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
I HOLL DDARLLENWYR ECO'R WYDDFA
oddi wrth
bawb yn

ARFON GARAGE

DEINIOLEN

(Ffôn: Llanberis 870287)

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

NOFEL NEWYDD I BLANT GYDA NEGES GYMDEITHASOL

Siencyn a Dan Draed gan **Eurgain Haf**

Cyfrannu at ddatblygiad cymdeithasol a moesol plant rhwng 7 ac 11 oed yw gobaith yr awdures Eurgain Haf gyda'i nofel newydd **Siencyn a Dan Draed** a gyhoeddir gan Wasg y Dref Wen.

Crwydryn yw Siencyn. Does ganddo ddim cartref, dim arian, a gan ei fod wedi colli ei gof, does ganddo ddim gorffennol chwaith. Nid Siencyn ydi ei enw go iawn, ond mae Siencyn yn odli hefo trempyn, a dyna'r cwbl ydi o i blant y fro sy'n galw enwau arno – hen drempyn budr, blêr. Ac wrth grwydro ar hyd a lled y wlad gyda'i gi bach teircoes, Dan Draed, mae Siencyn yn cwrdd â phobl diddorol iawn; rhai yn glên a rhai yn gas.

Dyma'r llyfr cyntaf o bedwar yng nghyfres **Siencyn a Dan Draed** gan Eurgain Haf, sydd eisoes wedi cyhoeddi dwy nofel i blant gyda Gwasg y Dref Wen: *Fferm Ffion* yn 2005 a *Stablau Seren* yn 2006.

Meddai Eurgain Haf, sy'n enedigol o Benisarwaun ond erbyn hyn yn byw ym Mhontypridd:

'Stori antur sydd yma yn ei hanfod yn dilyn hanes Siencyn a Dan Draed wrth iddynt grwydro'r wlad yn chwilio am le addas i gysgu ynddo a'r pryd nesaf o fwyd. Mae Siencyn hefyd yn chwilio am ei orffennol gan nad yw'n cofio pwy ydi o, ac o dipyn i beth, a gyda help nifer o gymeriadau lliwgar, daw ar draws cliwiau sy'n ei helpu i roi darnau jig-so ei fywyd at ei gilydd.

'Mae addysg gymdeithasol a moesol yn rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol erbyn hyn a dwi'n gobeithio y bydd y nofelau yma, yn ogystal ag adloni, yn ysgogi trafodaethau difyr ymhlith plant a'u hathrawon ar sut rydym yn edrych ar y rhai sy'n byw ar gyrion ein cymdeithas ac yn ddi-gartref. Mae pawb, dim ots pwy ydyn nhw, yn haeddu cael eu trin â pharch.'

Meddai Gwilym Boore o Wasg y Dref Wen yng Nghaerdydd:

'Fel gwasg, rydym yn falch iawn o gyhoeddi helyntion Siencyn, sydd wedi eu hysgrifennu'n fywiog a bachog gan yr awdures gyffrous, Eurgain Haf. Does dim dwywaith na fydd plant Cymru wrth eu boddau gyda'r cymeriad unigryw hwn ac yn awchu am droi'r tudalennau i weld beth fydd ei ffawd.

'Wrth gyhoeddi'r gyfrol hon mae Gwasg y Dref Wen yn parhau'r traddodiad o bron i ddeugain mlynedd o gyflwyno'r llenyddiaeth orau i blant Cymru.'



O SIAMBAR SELWYN

Yn Falkirk y cynhaliwyd Gŵyl Genedlaethol yr Alban eleni, a fy mraint i oedd cael cynrychioli Gorsedd y Beirdd yno unwaith yn rhagor. Mae amryw yn gofyn i mi beth ydi ystyr y gair 'MOD'. Wel, yn ôl a ddeallaf, fe ddaw allan o'r gair Anglo/Saxon – 'MOOT', sy'n golygu 'asembli' neu 'gyfarfod'. Rhywbeth yn debyg felly i'n Eisteddfod ni, lle rydan ni'n cyfarfod â'n gilydd i gynnal gŵyl. A gŵyl o gystadlu ydi'r Mod.

Mae yna tua 10,000 yn mynychu'r Mod bob blwyddyn ac, fel ein Eisteddfod ni, mae'r Mod hefyd yn ymweld â gwahanol lefydd yn flynyddol. Hwn oedd y tro cyntaf erioed i'r Ŵyl ymweld â Falkirk. Dywedir fod tua 60,000 yn medru siarad yr iaith ac mae yna tua 2,000 o gystadleuwyr yn dod i'r Ŵyl bob blwyddyn o bob rhan o'r Alban.

Yn y cinio swyddogol ar agoriad yr Ŵyl eleni, y prif siaradwr gwadd oedd Gweinidog Cyntaf yr Alban, Alex Salmond, a chafwyd newyddion da ganddo pan gyhoeddodd y byddai £2.7 miliwn ar gael i hyfforddi dysgu'r Gaeleg yn yr ysgolion a sefydliadau addysgol. Hefyd, fe gyhoeddwyd fod y sianel deledu, BBC Alba, a ddaeth i fodolaeth fis yn ôl yn gyfrifol am saith awr yn ddyddiol o raglenni newyddion, chwaraeon ac adloniant mewn Gaeleg.

Yn naturiol, fe gafodd Alex Salmond groeso mawr yn y Mod eleni. Cefais gyfle i gael sgwrs ag o ar y diwedd, ac roedd o'n anfon ei gofion cynhesaf at Dafydd Wigley.

Mae yna raglen drwchus iawn i weithgareddau'r Ŵyl am yr wythnos. Rhaglen sy'n enwi pob cystadleuydd ymhob cystadleuaeth, a diddorol oedd sylwi mai yr un enwau a welid yn aml yn y canu a'r adrodd ac yn y cystadlaethau offerynnol i blant. – yn union fel a welir yn ein Eisteddfodau Urdd ni. Roedd hyn yn achosi yr un problemau hefyd, sef yr un rhai yn cystadlu mewn gwahanol gystadlaethau, gan achosi torriad hir mewn sawl cystadleuaeth yn adran y plant. Mae yno ddau feirniad ar bob cystadleuaet – un yn beirniadu'r cyflwyniad a'r llall yn canolbwyntio'n gyfangwbl ar ynganiad yr iaith Gaeleg.

Cynhelid y cystadlaethau mewn gwahanol adeiladau yn y dref ond y brif ganolfan oedd Neuadd y Dref. Fe gynhaliwyd cystadleuaeth y pibau traddodiadol yn y gwesty lle roeddan ni'n aros, sef y Park Hotel, a rhaid i mi gyfadde roeddwn wedi hen flino ar sŵn pibau cyn diwedd y bore.

Mae'n arferiad bob prynhawn Sul i gynnal gwasanaeth drwy gyfrwng y Gaeleg, a phob noson ar derfyn y cystadlaethau fe geir cyngerdd gan enillwyr y dydd. Mae BBC yr Alban bellach yn teledu nifer helaeth o'r gweithgareddau.

Yn ystod yr wythnos hefyd, fe geir cystadlaethau dramâu ac, erbyn diwedd yr wythnos, fe gynhelir yr uchafbwynt pan fydd y corau yn cystadlu. Arferid coroni bardd yn y Mod ac mae sôn am adfer y seremoni yn y dyfodol.

Hyfryd oedd cael bod yng nghanol afiaeth y plant a'r bobol ifanc, a balch oeddwn o ddeall bod yr iaith yn ennill tir a bod Senedd yr Alban, o dan arweiniad Alex Salmond, yn awyddus iawn i weld yr iaith yn ffynu, a'i bod yn fwy na pharod i roddi pob cymorth i'r Mod a'r iaith Gaeleg.

* * *

Er gwaetha'r storm fe gafwyd Eisteddfod lwyddiannus yn Gwaun Gynfi eleni eto, yn enwedig yng nghyfarfod y prynhawn. Roedd yr Eisteddfod yn dathlu ei chwarter canrif eleni a hyfryd oedd gweld y festri yn llawn, a chymaint o bobol ifanc yr ardal yn cystadlu. Diolch hefyd i'r rhai a fentrodd o gryn bellter, er gwaetha'r tywydd stormus.

Yng nghyfarfod yr hwyr fe gafwyd pedair awr o gystadlu di-dor a phawb yn cytuno i ni gael noson hwyliog a chartrefol er gwaetha'r tywydd anffodus. Fedrwch chi ddim peidio â chael cystadlaethau o safon yn Eisteddfod Gwaun Gynfi bob blwyddyn cyn belled ag y mae cystadlaethau offerynnol yn y cwestiwn.

Mae sôn am newid dyddiad yr Eisteddfod ac mae'r Pwyllgor yn awyddus am i fwy ddod yn aelodau ohono fel y gellir sicrhau llwyddiant yr eisteddfod i'r dyfodol.

Dwy Eisteddfod cwbwl wahanol. Un yn gyfangwbl drwy gyfrwng y Gaeleg, a'r llall drwy gyfrwng yr Iaith Gymraeg. Do, fe wnes i fwynhau'r ddwy ond, o ddewis, rwy'n barod iawn i gyfadde bod sŵn offerynnau talentau ifanc Gwaun Gynfi gryn dipyn yn fwy soniarus na phibau ein cefndryd Celtaidd yn y Mod yn Falkirk. Diolch am y croeso yn y ddwy Eisteddfod.

Eisteddfod Ysgol Brynrefail 2008

Dyma un o'r prif ddigwyddiadau yng nghalendr yr Ysgol, ac unwaith eto eleni fe gyfareddwyd pawb fu'n ddigon ffodus i fynychu. Yr oedd disgyblion yr Ysgol wedi bod wrthi fel lladd nadroedd yn paratoi, a hynny dan arweiniad unigryw myfyrwyr y Chweched Dosbarth. Cafwyd gwledd o gystadlu, gyda disgyblion yn cael blasu amrywiol ddoniau eu cyfoedion, yn ogystal â chymryd rhan eu hunain mewn cystadlaethau o bob math.

Dyma ganlyniadau'r cystadlaethau llwyfan:

Unawd Merched Bl 7–9: Eiry Price (Gwyrfai); *Unawd Bechgyn Bl 7–9:* Sion Jones (Gwyrfai); *Llefaru Bl 7–9:* Lois Jones (Eilian); *Unawd Chwythbrennau Bl 7–9:* Elain Roberts (Eryri); *Unawd Offerynnol Bl 7–9:* Huw Owen (Eilian); *Unawd Piano Bl 7–9:* Huw Owen (Eilian); *Unawd Bl 10–13:* Hawys Price (Gwyrfai); *Unawd Piano Bl 10–13:* Hawys Price (Gwyrfai); *Llefaru Bl 10–13:* Sion Emyr (Eryri);

Llefaru Saesneg Bl 7–9: Beca George (Gwyrfai); *Llefaru Saesneg Bl 10–13:* Lowri Jones (Gwyrfai); *Deuawd Bl 7–9:* Anna Jones a Lois Jones (Eryri ac Eilian). *Tlws Rhyddiaith Saesneg:* Tamsin Griffiths (Eilian);
Deuawd Bl 10–13: Hawys Price a Marged Rhys (Gwyrfai ac Elidir); *Unawd Chwythbrennau Bl 10–13:* Catrin Jones (Eilian).

Medal yr Ifanc: Ffion Erin Williams (Eryri); *Y Gadair:* Lowri Elena Jones (Gwyrfai).

Parti Bechgyn: Elidir; *Parti Merched:* Elidir; *Dawnsio Disgo:* Eilian; *Parti Llefaru:* Eryri; *Parti Ffrangeg:* Elidir; *Ymgom:* Elidir; *Sgets:* Elidir; *Cân Ysgafn:* Elidir; *Ensemble:* Elidir; *Côr:* Eilian.

Ond, mae mwy na hyn i'r eisteddfod ac isod nodir y disgyblion buddugol mewn cystadlaethau a gynhaliwyd o flaen llaw:

Tlws Technoleg: Anna Wyn Jones (Eryri); *Tlws Gwyddoniaeth:* Gwen Tomos (Elidir); *Tlws Saesneg:* David Williams (Elidir); *Tlws Celf:* Hannah Jones (Gwyrfai); *Tlws Dyniaethau:* Danielle Lyden (Elidir); *Tlws Technoleg Bwyd:* Anna Wyn Jones (Eryri); *Tlws Ffrangeg:* Elliott Duggan Edwards (Elidir); *Tlws Mathemateg:* Kate Roberts (Elidir); *Tlws Cymraeg:* Gwenllian Jones (Eilian); *Tlws Technoleg Gwybodaeth:* Gethin Llŷr Jones (Eryri).

Y marciau terfynol:

Gwyrfai: 1164
Eilian: 1143
Elidir: 1125
Eryri: 1063

Buddugwyr y tlysau adrannol: Anna, Kate, Gwenllian, Elliot, Huw, Gwen a Ffion.

Buddugwyr y tlysau adrannol 2: Ffion, Gwen, Gwenllian, Kate, Anna, Danielle.

Capteiniaid Eryri: Siôn Emyr a Ffion Eleri Jones.

Enillwyr y perfformiadau gorau ar y llwyfan: Hawys Price a Siôn Emyr.



Capteiniaid Elidir: Declan Jones, Marged Rhys, Lois Angharad a Gwilym Rhys.

Enillydd y gadair a thlws yr ifanc: Lowri Elena Jones (Gwyrfai) a Ffion Erin Williams (Eryri).

Capteiniaid Gwyrfai: Liam Taylor, Glesni Haf Owen, Lowri Elena Jones, Cai Jones, Siôn Elwyn.

Capteiniaid Eilian: Danielle Cavanagh, Gethin Phillips, Iwan Williams a Hanna Gwyn.

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Merched y Gegin, Ysgol Gynradd Llanrug yn y 70au.

Katie Davies, Sera Roberts, Beryl Thomas, Lilly Horman, Jean Walsh, Joan Williams, Bet Jones, Enid Whiteside Thomas a Nancy Jones.

PROFEDIGAETHAU.
Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â Siân a Maldwyn Morris, Nant y Glyn, yn eu profedigaeth o golli mam Siân, sef Vera Griffiths, Llanberis, nain annwyl a gofalus i Elliw, Iolo ac Ifan.

Hefyd fe gydymdeimlwn â Mrs Megan Jones, 56 Stad Glanffynnon, Howyn, Ian a Nia yn eu profedigaeth hwythau.

Bu farw Mr Cledwyn Jones wedi gwaeledd hir a gwelir ei golli yn arw gan ei frawd Bert a'i wyrion,wyresau a gor-wyresau a'r teulu oll.

Yn dawel ar ôl blynyddoedd o waeledd a gofal arbennig ei wraig, Linda, a'r genod, Lynne a Lisa, bu farw Leon Schudlak, 8 Stad Minffordd yn 58 mlwydd oed. Estynnwn ein cydymdeimlad â chi, i Cian, ei ŵyr bach a'i dad, ei chwiorydd a'i frawd a'r teulu i gyd.

Anfonwn ein cydymdeimlad hefyd at Morfudd Roberts, Rhes Minffordd, a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli ei chwaer, Megan Lewis, o Gaernarfon.

SEFYDLIAD COFFA. Enillwyr Clwb Cant mis Tachwedd oedd: £20: Mrs G. Kirkpatrick, 21 Hafan Elan; £7: Mrs M. Axon, 13 Hafan Elan; £5: E. Roberts, Glanfa.

PRIODAS RUDDEM.
Llongyfarchiadau mawr a phob bendith ar ddathlu eich Priodas Ruddem, Selwyn a Vera Jones, Gwydryn, Ffordd yr Orsaf. Deallwn eich bod wedi mwynhau y dathlu gyda'r teulu.

DIOLCHIADAU. Dymuna Bert a Megan, 21 Ffordd Glanffynnon, a'r teulu ddiolch yn ddiffuant i deulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o garedigrwydd a chydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli brawd, brawd yng nghyfraith ac ewythr annwyl.

MERCHED Y WAWR. Estynnwyd croeso cynnes i bawb gan y Llywydd, Phyllis Elis a chyd-ganwyd Cân Merched y Wawr. Atgoffwyd pawb fod y mudiad yn casglu brongysylltau yn ystod y flwyddyn i helpu merched difreintiedig y byd.

Y wraig wadd oedd Mrs Rose Williams, gyda'i gwreiddiau yn ddwfn yn naear Llanaelhaearn. Yn amserol iawn bu'n dangos i ni sut i addurno teisennau Nadolig a sut i wneud addurniadau bwrdd. Bu'n addurno un deisen Nadolig a hynny mor gelfydd gan ddefnyddio addurniadau syml o gelyn a phonsetia. Dyma riset y deisen orffenedig:

Tun 7 modfedd
9 owns o flawd codi
6 owns o fenyn
6 owns o siwgr brown meddal
4 wy
hanner llwy de o sunsur
hanner llwy de o sinamon
llwy fwrdd o sudd lemwn
llwy fwrdd o driog
25 owns o frwythau sych cymysg
2 owns o geirios
llwy fwrdd o frandi neu rym

cymysgu'r cyfan a'i roi mewn tun Popty nwy 4 ar silff isaf ond un. Yna ei haddurno yn hardd fel yr un a welwyd ar y noson!

Roedd ganddi addurniadau bwrdd hyfryd hefyd, rhai mewn canwyllbrennau ac un wedi'i gosod ar dysen enfawr wedi'i gorchuddio â ffoil. Cyflwynodd Rose un ohonynt i'r raffl a chafodd y gweddill eu gwerthu gyda'r arian yn mynd i'r gangen.

Olwen fu'r enillydd lwcus a phrynwyd y gweddill gan Ann Thomas, Phyllis a Nan. Diolchwyd i Rose am ei charedigrwydd ac am noson hwyliog, addysgiadol a Nadoligaidd iawn. Diolchwyd hefyd i'r genod a baratodd y baned.

Ar 9 Rhagfyr, byddwn yn dathlu'r Nadolig yn y Caban ym Mrynrefail. Gofynnir i bawb geisio dod yno erbyn 7.00 o'r gloch er mwyn dechrau ciniawa am 7.30.

YSGOL GYNRADD
Rydym yn croesawu athrawes newydd i'n plith, sef Miss Einir Williams. Gobeithio y bydd hi'n hapus iawn yn ein plith.

Eisteddfod Ysgol Brynrefail. Bu genod blwyddyn dau yn perfformio'r ddawns flodau yn yr Eisteddfod o dan hyfforddiant Mrs Heulwen Evans.

Diolchgarwch. Diolch i'r Parchedig Robert Townsend am ddod i'r ysgol ar gyfer y gwasanaeth diolchgarwch.

Diwrnod Plant Mewn Angen. Roedd dillad coch i'w gweld ym mhob man ar y diwrnod arbennig yma, gyda'r plant yn cyfrannu punt at yr elusen. Codwyd £280 – da iawn chi!

Llongyfarchiadau i bawb a gymrodd ran yn yr Eisteddfod Bentref, boed hynny ar y llwyfan neu yn y cystadlaethau gwaith cartref. Bu genod blwyddyn dau yn perfformio'r ddawns flodau yn yr eisteddfod yma hefyd.

Cae'r Gors. Cafodd disgyblion blwyddyn un a dau ddiwrnod gwerth chweil mewn gweithdy Diwrnod Golchi erstalwm yng Nghae'r Gors, Rhosgadfan. Diolch i Siân a Gwenllian o Gae'r Gors am eu croeso ac am roi blas ar gyfnod erstalwm i'r plant.

Llongyfarchiadau i Anti Bethan ac Anti Sonia – y ddwy wedi dod yn nain yn ddiweddar. Mae Anti Bethan erbyn hyn yn nain i Ifan; ac Anti Sonia yn nain i Shannen.

Cynhelir ein Ffair Nadolig eleni ar nos Iau, Rhagfyr 4ydd.

Rose Williams yn adurno teisen Nadolig ac yn gwisgo ffedog y Mudiad.

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir Dinorwig. Ffôn: 870292

MARWOLAETH. Yn ystod y dyddiau diwethaf, daeth y newydd trist i'r ardal am farwolaeth Clifford Jones (Clifford Pant, fel yr ydym ni fel plant yr ardal yn ei gofio). Bu farw, ar ôl cystudd hir, ar 23 Hydref yn ei gartref yn Biddulph, Stoke on Trent, yn 76 mlwydd oed, wythnos union ar ôl claddu ei ferch.

Yr oedd Clifford yn un o ffrindiau pennaf Derek Williams, ac fe fu yn galw am Derek am rai dyddiau cyn ei farw. Cydymdeimlwn yn fawr â Maggie, ei chwaer, a'i gŵr, Gwyndaf, sy'n byw yn Nhregarth, ac â'r teulu oll yn eu galar a'u profedigaeth.

CLWB ORWIG. Cyfarfu aelodau'r clwb uchod ar 16 Hydref a llywyddwyd y cyfarfod gan John Cantrell.

Llongyfarchwyd a dymunwyd yn dda ar eu pen-blwydd i Margaret Faulkener, Morfudd Jones, Joan Glass a Beryl Griffith.

Cafwyd adroddiad gan Terry Taylor o'r cyfarfod a gafodd gyda Dafydd Einion Jones o Swyddfa Ardal Dyffryn Peris ynglŷn â'r trefniadau i dorri'r gwair o gwmpas Cofeb y Chwarelwyr. Trafodwyd y trefniant ar gyfer Cinio'r Cynhaeaf, sydd i'w gynnal yn Blue Peris. Atgoffwyd yr aelodau i ddod â'u storïau a lluniau o Ddinorwig gyda hwy.

Cafwyd ychydig o hanes Cymdeithas Cyfeillion Ysbyty Gwynedd gan Ann Williams a bu'n gwerthu cardiau Nadolig er budd y Gymdeithas.

Diolchwyd i Margaret Faulkener a Betty Bower am roddi'r te a gwobrau'r raffl, a enillwyd gan Alice Griffith, Betty Ann Jones, Nellie Wyn Jones a Joan Glass.

DAMWAIN. Dymunwn adferiad buan i Mrs Alice Griffith, Tan y Buarth, ar ôl iddi syrthio yn y tŷ a thorri asgwrn yn ei throed. Brysiwch wella, Mrs Griffith.

Eich hoff lun – mewn dyfrlliw!

Oes ganddoch chi ffotograff arbennig yr hoffech ei droi yn waith celf dyfrlliw?

Mae Islwyn Williams, yr arlunydd o Benisarwaun, yn cynnig gwneud hynny i chi, e.e. plentyn, nain, golygfa hoff, neu'r ci a'r gath!

Cysylltwch â fo ar: Llanberis **870 735**



GWYNANT PIERCE

Cynyrchion Coed: Gatiau, Ffensus ac ati am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901

Perchnogion Newydd!

yn parhau'r traddodiad gwych

WAVELL'S

Bryn ac Angela Williams

London House, LLANRUG

Ffôn:
(01286) 673574

PEN CIGYDDION Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus,
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

CYFARCHION Y TYMOR. Dymuna Goronwy a Mair Jones, Cilan, Tan y Cae, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w teulu, cymdogion a ffrindiau gan na fyddant yn gyrru cardiau eleni. Diolch yn fawr iawn am bob caredigrwydd a gawsant yn ystod 2008.

DIOLCH. Dymuna Mrs Myra Griffith, Penisarwaun, ddiolch yn gynnes iawn i'w ffrindiau ym Methel am eu caredigrwydd yn dilyn y driniaeth a gafodd yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Diolch o galon hefyd am y cardiau a'r dymuniadau da ar achlysur dathlu pen-blwydd go arbennig. Diolch yn fawr iawn.

DIOLCH. Dymuna Nerys Owen ddiolch o galon i bawb am eu caredigrywdd tra bu yn yr ysbyty ac ar ôl iddi ddod adref, a hefyd am eu cydymdeimlad ar yr achlysur o golli ei chwaer, Catherine yn Shrewsbury, ac am eu cyfraniad ariannol tuag at y galon.

LLONGYFARCHIADAU i Robin ac Alys, Stad Eryri, ar enedigaeth wyres, Manon, ar 7 Tachwedd, merch i Non ac Owain a chwaer fach i Siôn.

CIPIODD Richard Llwyd Jones y Gadair a'r Tlws Llên yn Eisteddfod Gadeiriol Treuddyn, Yr Wyddgrug yn ddiweddar. Dyma'r tro gyntaf i'r 'dwbwl' gael ei gyflawni yn yr eisteddfod ers degawdau. Anrheg bach hwyr wedi cyrraedd oed y '*bus pass*'.

CAPEL CYSEGR. Yn ystod Oedfa'r Bore yn ddiweddar, cafwyd Sacrament o Fedydd dan ofal y gweinidog, y Parchedig Marcus Wyn Robinson. Roedd Eban Ogwen Moss wedi dod i'r capel efo'i ddau frawd mawr, sef Celt a Cai, a'r tri yn blant i Eleri a Melfyn Moss, Pentir. Braf oedd cael croesawu gweddill y teulu, ac yn dilyn y bedydd derbyniwyd Eleri a Melfyn Moss yn gyflawn aelodau o'r Cysegr gan y gweinidog.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Braf oedd gweld nifer dda o'r aelodau wedi dod i wrando ar y Parchedig Huw John Hughes, Porthaethwy, yn annerch yng nghyfarfod mis Tachwedd. Croesawyd pawb ynghyd gan y Llywydd, Ieuan Williams, ac ar y testun 'Chwerw a Melys' bu i'r siaradwr ddwyn i gof nifer o atgofion am wahanol sefyllfaoedd oedd wedi dod i'w ran dros gyfnod o flynyddoedd. Diolchwyd iddo am sgwrsio am ei brofiadau chwerw a melys gan Geraint Elis.

Dalier sylw mai ar 2 Rhagfyr y bydd y cyfarfod nesaf, sef Noson Nadoligaidd yng nghwmni'r aelodau.

CLWB BRO BETHEL. Daeth nifer dda o aelodau ynghyd y mis yma ac yn dilyn y croeso arferol, anfonwyd cofion at y Llywydd, Goronwy Jones, sydd erbyn hyn wedi dod o'r ysbyty ac yn aros gyda'r mab yng Nghaernarfon. Cydymdeimlwyd â rhai oedd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar, sef Trefor Williams, Nerys Owen, Bessie Ellis a Beti Owen – pob un wedi colli chwaer, a chyfeiriwyd at farwolaeth dwy gyn-aelod, sef Ceri Williams ac Annie Elizabeth Wiliams.

Braf oedd cael ar ddeall fod y Clwb wedi derbyn siec o £100 gan Gyngor Llanddeiniolen. Hysbyswyd yr aelodau am gyfarfod Fforwm Pobl Hŷn i'w gynnal yng Ngwesty'r Celt ar 24 Tachwedd, ac hefyd am gynhadledd wedi ei threfnu gan Gyngor Gwynedd, Gofal a Thrwsio i'w chynnal ym Mhorthmadog ar 14 Tachwedd.

Gwen Jones, Llanrug, oedd y wraig wadd, a chafwyd sgwrs ddifyr ganddi yn olrhain hanes ei mam, sef Dilys Baylis, Llanberis. Roedd ei mam wedi cadw dyddiadur ers iddi adael yr ysgol a chafwyd ei hanes yn ymwnend â chartref Dr Barnado i lawr yn agos i Lundain a'r amser y bu'n nyrsio yn y Cartref. Daeth yn ôl i Lanberis a bu'n gweithio yn siop ei rhieni am flynyddoedd wedyn. Mae Dilys Baylis yn dal i fyw yn Llanberis ac yn enwog i ni yn yr ardal yma fel awdur nifer o gerddi ac emynau.

Diolchwyd yn gynnes iawn iddi am ddod â hen atgofion yn ôl ac am ei sgwrs ddiddorol, gan Elizabeth Evans.

Dathlu gyda chinio Nadolig fydd yr aelodau y tro nesaf a hynny ar 2 Rhagfyr yn y Bedol am 12.00.

DYMUNA Llinos a Dafydd, Yr Hafod, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn dilyn eu profedigaeth diweddar o golli mam annwyl.

Y NEUADD GOFFA

Enillwyr Clwb 200 am fis Awst 2008 oedd: £40: (67) Ellen Williams, Glasynys, Tan y Buarth; £20: (160) Cathy Bell, Tŷ Newydd; £10: (165) Iola Jones, 22 Y Ddôl.

Enillwyr Medi oedd: £40: (157) Anita Owen, Tŷ'r Ysgol; £20: (153) Margarert Hughes 6, Bro Rhos; £10: (50) Siencyn Griffiths, Llwyn Eithin.

MERCHED Y WAWR.

Cychwynnwyd y cyfarfod drwy gyd-ganu Cân y Mudiad ac yna croesawyd pawb ynghyd gan y Llywydd, Mair Price. Hysbyswyd yr aelodau am nifer o faterion y Mudiad, a braf oedd cael cyhoeddi fod y siec am £535 gan y Loteri o dan y cynllun 'Arian i Bawb' wedi cyrraedd.

Anfonwyd cyfarchion i Bet ac Edwina yn dilyn cyfnod yn yr ysbyty a chydymdeimlwyd â Bet yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer yn ddiweddar. Dymunwyd yn dda i Joyce a Gwyneth, y ddwy yn disgwyl triniaeth lawfeddygol, a llongyfarchwyd Alys ar enedigaeth wyres, merch fach i Non.

Y wraig wadd oedd Carol Smith o Landwrog Uchaf, a chafwyd noson ddifyr iawn yn ei chwmni yn creu cardiau 'Dolig. Roedd wedi dod â phecyn yn cynnwys deunydd i bob aelod fynd ati i greu dau gerdyn, ac fe aeth pawb adref yn teimlo'n falch iawn o'u cardiau. Diolchwyd iddi gan Anita Owen.

Gwledda yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis, fydd yr aelodau yn y cyfarfod nesaf ar 10 Rhagfyr, a bydd y bws yn cychwyn o Penrhos am 7.00 ac yn codi yn y mannau arferol.

Swyddogion cangen Bethel o Ferched y Wawr yn arddangos Siec Grant ariannol a dderbyniwyd gan y gangen leol gan 'Arian i Bawb Cymru' yn ddiweddar. Defnyddir y grant ar gyfer trafnidiaeth, tâl mynediad i Ganolfan Dreftadaeth Cae'r Gors a siaradwyr gwâdd. Yn y llun (o'r chwith): Glenys, Beti a Mair.

Dyddiadur EVAN JONES Tŷ'r Mawn

Am y mis hwn yn y flwyddyn 1908, toes yna ond un digwyddiad wedi ei nodi, sef:

19 Rhagfyr, 1908: Claddu mam John Michael Evans.

Ymlaen rŵan i'r flwyddyn 1930.

1 Ionawr, 1930: Claddu gwraig Owen Roberts, Llainwen.

30 Ionawr: Marw Gwilym Hughes, Tŷ Newydd Bach.

1 Chwefor: Marw gwraig John Hughes, Padarn Road, a chladdu'r ddwy yr un diwrnod.

18 Chwefror: Claddu Dr Jones, Trefriw.

1 Mawrth: Claddu Thomas Williams, Band Master Llanberis.

7 Mawrth: Marw gwraig John Owen, Coed.

10 Mawrth: Claddu Owen Owen, Hafod Uchaf.

12 Mawrth: Claddu Griffith Phillips, Fach Wen.

15 Mawrth: Claddu Laura Evans, Tŷ Coch, a hefyd claddu gwraig William Pritchard.

24 Mawrth: Robert Davies, Cambrian Terrace, yn cael ei ladd wrth syrthio o'i fargen i lawr yn Bonc New York.

5 Awst: Priodi David Jefferys, Llainwen yn Capel Coch.

15 Awst: Claddu Dick Williams a fu farw yn Camp, a dod â fo adref i Victoria Terrace.

11 Medi: Claddu William Jones, Ty'n Gadlas.

18 Hydref: Claddu mam John Evans, Cwm y glo.

22 Hydref: William Morris, Nant Uchaf, yn cael ei ladd trwy i darw droi arno.

15 Tachwedd: Claddu J.R. Jones, London House.

24 Tachwedd: Marw D.O. Williams, Mur Mawr.

25 Tachwedd: Marw gwraig William Weldon Hughes, Rallt Goch, a cael ei chladdu dydd Sadwrn, y 29.

29 Tachwedd: Austin Roberts yn syrthio o dop Castell Llanberis a'i ladd ar dydd Sadwrn.

22 Rhagfyr: Claddu William Williamson.

30 Rhagfyr: Marw Ellis Williams, York Terrace, ac hefyd William Williams, Plas Coch. Claddu'r ddau ar dydd Sadwrn, Ionawr 3, 1931.

R. ELWYN GRIFFITH

Cofiwch ddefnyddio

SWYDDFA POST BETHEL

(01248) 670261

ORIAU AGOR
6 a.m.–7.30 p.m. (Llun–Sadwrn)
6 a.m.–3 p.m. (Sul)
10 a.m.–12pm (Diwrnod Nadolig)

Cewch groeso cynnes gan,
CLED A SUSAN A'R TEULU

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant Tynnu Pres (Cashback)

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn a Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb



CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263

DIOLCH. Dymuna Medi a Gareth, 13 Dôl Afon, ddiolch o galon i'w teulu a ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar enedigaeth eu merch fach, Catrin Eleri.

UNDEB Y MAMAU. Cyfarfu'r aelodau yn yr ysgol Gymuned nos Lun, 3 Tachwedd. Croesawodd Mrs Dorothy Jones, Arweinydd y Gangen, bawb i'r cyfarfod a chafwyd gwasanaeth byr. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Miss Meira Wiliams a thrafodwyd materion perthnasol gan Dorothy.

Bydd Rosemary Kempsell, Llywydd y byd, yn ymweld â'r ddeoniaeth ar 12–14 Rhagfyr gan gymryd rhan mewn gwasanaeth ym Morthmadog ar 13 Rhagfyr ac yn y Gadeirlan ym Mangor ar ddydd Sul, 14 Rhagfyr.

Cyflwynwyd y gŵr gwadd, Mr Brian Evans, gan Dorothy a chyda chymorth dvd, cafwyd sgwrs ddiddorol iawn ganddo am Hufenfa De Arfon. Y gwesteion oedd Mrs Gwen Owen a Mrs Marjorie Roberts. Hwy hefyd roddodd y raffl ac fe'i henillwyd gan Mrs Gwyneth Roberts. Diolchwyd i Mr Evans ac i'r gwesteion gan Mrs Margaret Latham.

Bydd Gwasanaeth Carolau yn cael ei gynnal yn Eglwys Sant Gabriel nos Lun, 8 Rhagfyr. Croeso cynnes i bawb. Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y Gras.

EGLWYS SANT GABRIEL. Cynhaliwyd yr Ŵyl Diolchgarwch ddydd Sul, 19 Hydref.

Bore Sul, am 9.30, cawsom wasanaeth o'r Cymun Bendigaid dwyieithog gyda'r Rheithor, y Parchedig Robert Townsend, ac yn yr hwyr, am 4.30 o'r gloch, cawsom Bregeth y Cynhaeaf gan ein Deon Bro, Y Parchedig Ganon Roger Donaldson, Caernarfon.

Yr organydd yn y bore oedd Iwan Williams ac yn yr hwyr, Mrs Cassie Thomas. Y darllenwyr yn y gwasanaethau oedd Mrs Valmai Kressman a Mrs Dorothy Jones yn y bore a Mrs Cassie Thomas a Miss Meira Williams yn yr hwyr.

Diolch o galon i bawb fu'n gwasanaethu dros yr Ŵyl. Cafwyd cefnogaeth dda yn y ddau wasanaeth. Dymuna'r Wardeniaid a'r Rheithor ddiolch i bawb am addurno'r Eglwys mor hardd ac am y rhoddion o lysiau, ffrwythau a'r blodau hardd.

NOSON BINGO. Nos Lun, 20 Hydref, cynhaliwyd noson o Bingo yn yr Ysgol Gymuned. Diolch am y rhoddion ariannol ac am y rhoddion at y raffl a'r gwobrau a diolch i bawb am eu cefnogaeth i'w gwneud yn noson mor llwyddiannus. Roedd yr elw'n mynd i Gronfa Eglwys Sant Gabriel. Diolch hefyd i Maragret ac Ann o Lanberis am alw'r rhifau a hefyd diolch i Margaret a Sioned am werthu'r tocynnau bingo. Diolch o galon i bawb.

Enillwyr y Raffl Fawr oedd:

£50: Gwenllian Medi, 2 Glyndwr, Cwm y Glo; £30: Mr Rogers, Llwyn Onn, Cwm y Glo; £20: Mr Prichard, Bryn Haul, Llanrug; Tocyn Cig: 53 Bro Rhythallt, Llanrug; Stampiau Morrisons: Jenny Jones, d/o Ysgol Cwm y Glo; Tocyn Petrol: 01407 832526; Potel o Win: Dawn Jones, Trin Gwallt, Llanrug; Plât China: Mrs Alwena Hughes Jones, Crawiau; Basged o lysiau a ffrwythau: Carla Davies, Fricsan, Cwm y Glo; Bocs o nwyddau: Eric Jones, Ffordd Bethel, Caernarfon; Canhwyllbren: Mr Roy Griffiths, Turner Street, Llanberis; Bocs Brecwast: Mr Evans, 21 Bro Rhythallt, Llanrug; Bocs Llysiau: Diane Prichard, 11 Ceunant Street, Llanberis; Bocs o nwyddau: Mrs Jenny Hughes, Bryn Parc, Brynrefail; Peiriant Coffi: Mrs Cynthia Owen, 23 Hafan Elan, Llanrug; Bocs o ffrwythau: Gemma Morris, 11 Trefeilian, Waunfawr; Bocs o nwyddau: Elen, Siop Trin Gwallt Body Talk, Caernarfon; Jigsô: Martin Jones, Fron Gadair, Cwm y Glo; Mwg a *Coasters*: Mrs Margaret Williams, Nant Forgan; Bocs o nwydau: Mr Emlyn Morris, 11 Trefeilian, Waunfawr; Basged o ffrwythau: Ellen Wyn Roberts, Bron Meillion, Bethel; Bocs o ffrwythau: Mrs Alice Jones, Min Awel, Bethel; Bocs o nwyddau: Mr Glyn Hughes, Busnes Glo, Llanberis.

Enillwyr y raffl ar y noson:

Lluniau: 1. Meirion Williams, Elidir View, Cwm y Glo; 2. Mrs Elizabeth Griffiths, Turner Street, Llanberis; 3. Catherine Roberts, 18 Dôl Afon, Cwm y Glo; 4. Doli wedi'i gwau: Mrs Gwyneth Roberts, Bod Gwynedd, Cwm y Glo; 5. Potel o dda-da: Margaret Price, Dôl Elidir, Llanberis

Enillwyr y Tocyn pêl-droed: Siân Hughes, Bryn Gro, Cwm y Glo a Betty Roberts, Perthi, Llanrug.

Enillydd pen-blwydd y ddoli, sef 13 Medi: Sandra Thomas, Gwylfa, Cwm y Glo.

Diolch o galon i bawb am eich cefnogaeth a'ch presenoldeb.

YSGOL CWM Y GLO.

Cafodd ddosbarth Llydaw fynd i Gae'r Gors ar weithdy Hanes. Roeddynt wedi mwynhau mynd yn ôl i Oes Fictoria yn fawr iawn.

Cafwyd amser prysur iawn yma ar ddiwrnod Plant Mewn Angen. Roedd gemau i'w chwarae, teganau a theisennau i'w prynu a chystadleuaeth gwisg ffansi. Casglwyd £200 i Blant Mewn Angen a diolchwn i'r Cyngor Ysgol am drefnu'r gweithgareddau.

Llongyfarchiadau i Wendy a Garry Roberts ar enedigaeth mab bach, Trystan. Cofiwch alw heibio i ddangos y bychan i ni.

Cystadleuaeth Gwisg Ffansi Plant Mewn Angen

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

Cydnabyddir cefnogaeth

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government

BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD

www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Ymgyrch Plentyn Nadolig

Diolch i'r plant ddaeth â bocsys i'r ysgol ar gyfer Ymgyrch Plentyn y Nadolig. Anfonwyd deunaw ohonynt i blant anghenus.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

Richard S. Humphreys

FINE ART TRADE GUILD

ORIEL CWM

Cwm-y-glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio

Lluniau o bob math ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau gwreiddiol gan Artistiaid Lleol

CYFARCHION NADOLIG

CWM-Y-GLO

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth **IRFON** a phawb yn

LONDON GARAGE

Cwm-y-glo

Ffôn: 870234

Ar agor: 8.30–6 Llun–Gwener
8.30–1 Sadwrn

MOT. Disel, Petrol
Gwasanaeth ac Atgyweirio

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

i'n holl gwsmeriaid oddi wrth bawb ym

menter fachwen

(01286) 872014

YR UNDEB EWROPEAIDD Cronfa Gymdeithasol Ewrop ÁMCAN 1 — EUROPEAN UNION European Social Fund OBJECTIVE 1

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i gwsmeriaid hen a newydd oddi wrth **TED** a phawb yn

snowdoninn

(Y FRICSAN)

CWM-Y-GLO

Dewch i'n gweld yn 2009 am gwrw lleol.

* Cerddoriaeth byw bob nos Wener/Sadwrn
* Ewch i'n gwefan i gael golwg ar ddyddiad y digwyddiadau.

01286 870289 **www.yfricsan.co.uk**

OAK — AM BETROL, DEISEL, OLEW, AMRYFAL ANRHEGION MODURO A PHAPURAU NEWYDD — OAK

GORSAF BETROL LONDON GARAGE CWM-Y-GLO

Ffôn: Llanberis 872046

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

ODDI WRTH

MORRIS BROS.

BECWS GORS BACH, CWM Y GLO

Ffôn: Llanberis 870430

HEFYD YM
MECWS PEN Y BRYN
LLANBERIS Ffôn: Llanberis 870268
70 STRYD LLYN CAERNARFON Ffôn: 675526

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

EISTEDDFOD BENTREF. Cafwyd diwrnod hynod lwyddiannus yn Eisteddfod Bentref Waunfawr ar ddydd Sadwrn yr 8fed o Dachwedd. Roedd cystadlu brwd drwy gydol y prynhawn gydag Eisteddfod y plant yn denu nifer fawr o gystadleuwyr ifanc – da iawn chi a llongyfarchiadau i bob un a gymerodd ran yn yr Eisteddfod. Roedd safon arbennig o uchel i'r cystadlu gyda'r hwyr eleni, a digon o hwyl hefyd wrth i'r ddau dîm – Croes y Waun a thîm y Post – ymrafael am y bencampwriaeth! Tîm y Post oedd y buddugwyr ar ddiwedd y noson gan gipio'r tlws sy'n rhoddedig gan deulu Pant Teg. Mae'n diolch yn enfawr i Edward Morris Jones ac Eifion Harding am eu gwaith diflino yn beirniadu drwy gydol y dydd a'r nos, a diolch fil i bawb ohonoch sydd wedi cyfrannu at lwyddiant ysgubol yr Eisteddfod.

Canlyniadau'r Dydd

Llefaru Bl Derbyn: 1af: Beca Haf; 2ail: Beca Elan.
Cerdd Bl Derbyn: 1af: Beca Haf; 2ail: Math; 3ydd: Beca Elan.
Llefaru Oed Meithrin: Cydradd 1af: Mabon a Sam.
Cerdd Oed Meithrin: 1af: Elin; 2ail: Claire; Cydradd 3ydd: Llio, Noa, Sam, Mabon.
Llefaru Bl 1: 1af: Gwion.
Cerdd Bl 1: 1af: Tanwen; 2ail: Iwan; Cydradd 3ydd: Morgan, Gwion a Sam.
Llefaru Bl 2: 1af: Esyllt.
Cerdd Bl 2: Cydradd 1af: Enlli ac Esyllt; 2ail: Elan; Cydradd 3ydd: Gethin a Jac.
Llefaru Bl 3 a 4: 1af: Tomos Morgan; 2ail: Tomos Sion; Cydradd 3ydd: Cai a Morgan.
Cerdd Bl 3 a 4: 1af: Nia; Cydradd 2ail: Elin a Guto; Cydradd 3ydd: Cai a Tomos Parry.
Llefaru Bl 5 a 6: 1af: Tesni; 2ail: Megan Enlli; 3ydd: Dafydd.
Cerdd Bl 5 a 6: 1af: Megan Elen; 2ail: Megan Enlli; Cydradd 3ydd: Tesni ac Enlli.
Unawd Alaw Werin: 1af: Morgan; 2ail: Beca Haf; 3ydd: Guto a Cai.
Cân Theatrig: Cydradd 1af: Parti'r Hogia a Pharti'r Merched.
Piano Bl 3 a 4: 1af: Tomos Morgan; Cydradd 2ail: Morgan a Cai; Cydradd 3ydd: Guto a Tomos Parry.
Piano Bl 5 a 6: 1af: Megan Elen.
Unawd Offerynnol hyd at flwyddyn 4: 1af: Elin.
Unawd Offerynnol Bl 5 a 6: 1af: Tesni; Cydradd 2ail: Sophie a Meleri.
Parti Dawnsio: 1af: Parti Dawnsio Blwyddyn 6; 2ail: Parti Dawnsio Blwyddyn 3, 4 a 5.
Parti Llefaru: 1af: Parti Blwyddyn 3 a 4; 2ail: Parti Blwyddyn 5 a 6.
Parti Canu: 1af: Côr Ysgol Waunfawr.
Llên Bl 3: 1af: Rhiannon; Cydradd 2ail: Anest, Mabon a Cara; Cydradd 3ydd: Alice, Alys Davies a Cai.
Llên Bl 4: 1af: Tomos Parry; Cydradd 2ail: Tomos Morgan a Huw; Cydradd 3ydd: Morgan a Mared.
Llên Bl 5: 1af: Tim; 2ail: Enlli; Cydradd 3ydd: Dafydd ac Arian.
Llên Bl 6: 1af: Megan Enlli; 2ail: Pauline; 3ydd: Alex.

Celf

Celf oed cyn ysgol: 1af: Nel; 2ail: Ianto ac Alaw; 3ydd: Serena a Ben. *Meithrin:* 1af: Iago; 2ail: Sam W.; 3ydd: Elin. *Dosbarth Derbyn:* 1af: Ela; 2ail: Beca Ela; 3ydd: Math. *Bl 1:* 1af: Emily; 2ail: Meilir; 3ydd: Gwion. *Bl 2:* 1af: Jac; 2ail: Byron; 3ydd: Tomos. *Bl 3:* 1af: Chloe; 2ail: Rhys; 3ydd: Alice ac Alys. *Bl 4:* 1af: Mair; 2ail: Elin; 3ydd: Laura a Cai. *Bl 5:* 1af: Gwion; 2ail: Tara: 3ydd: Elen Margaret. *Bl 6:* 1af: Pauline; 2ail: Megan Eira; 3ydd: Joel.

Coginio

Meithrin: 1af: Mabon; 2ail: Alaw Non. *Bl 1:* 1af: Iwan; 2ail: Meilir a Gwion. *Bl 2:* 1af: Esyllt. *Bl 3:* 1af: Cai. *Bl 4:* 1af: Aled a Tomos Morgan; 2ail: Tomos Parry a Morgan; 3ydd: Huw. *Bl 5:* 1af: Dafydd. *Bl 6:* 1af: Tesni.

Ffotograffiaeth

Meithrin: 1af: Mabon; *Dosbarth Derbyn:* 1af: Math; *Bl 1:* 1af: Meilir; 2ail: Gwion; *Bl 2:* 1af: Esyllt; *Bl 4:* 1af: Tomos Parry; 2ail Aled; *Bl 5:* 1af: Dafydd; *Bl 6:* 1af: Megan Enlli; 2ail: Tesni.

Canlyniadau'r Nos

Moli'r Beirniaid: 1af: Tîm Croes y Waun; 2ail: Tîm y Post.
Llefaru Unigol Uwchradd: 1af: Mared Ynyr.
Canu Uwchradd: 1af: Erin: 2ail: Mared Rhys; 3ydd: Gwenllian.
Llefaru Unigol Agored: 1af: Meira; 2ail: Alma; 3ydd: Eurig Wyn; Cydradd 4ydd: Llio a Sara.
Dawnsio Uwchradd: 1af: Tîm y Post.
Unawd Offerynnol Uwchradd: 1af: Elgan; 2ail: Mared Rhys; 3ydd: Erin; 4ydd: Gwenllian.
Darllen Heb ei Atalnodi: 1af: Huw; 2ail: Geraint; 3ydd: Irene; 4ydd: Meira.
Unawd Cerddorol Agored: 1af: Ffion; 2ail: Jana; Cydradd 3ydd: Catrin a Doug.
Ymgom Uwchradd: 1af: Llywelyn a Meleri; 2ail: Erin a Mared.
Tecstio ac y pryd: 1af: Llio; 2ail: Iola Gruffydd; 3ydd: Alun; 4ydd: Erin.
Unawd Offerynnol Agored: 1af: Awel; 2ail: Iola Gruffydd; 3ydd: Ceri.
Dawnsio Agored: 1af: Tîm y Post; 2ail: Tîm Croes y Waun.
Deuawd, Triawd neu Bedwarawd: 1af: Ffion, Tania, Jana a Huw; 2ail: Iola a Catrin.
Arlunio ar y Pryd: 1af: Sylvia; 2ail: Iwan; 3ydd: Iola Ynyr; 4ydd: Alun.
Darllen ar y Cyd: 1af: Tîm Croes y Waun; 2ail: Tîm y Post.
Emyn: 1af (a chwpan Er Cof am Wmffra Jones): Awel; 2ail: Ffion; 3ydd: Alun; 4ydd: Doug.
Sgets: 1af: Tîm y Post; 2ail: Tîm Croes y Waun.
Côr: 1af: Tîm Croes y Waun; 2ail: Tîm y Post.
Llinell Goll: 1af: Olwen; 2ail: Alfie; 3ydd: Dewi; 4ydd: Olwen.
Llên Uwchradd: 1af: Gwenllian; 2ail: Mared Ynyr.
Ffotograffiaeth Uwchradd: Cydradd 1af: Erin, Beca ac Erin.
Ffotograffiaeth Agored: 1af: Duncan; 2ail: Iwan; 3ydd: Rhys.

Coginio

Torth: 1af: Irene; Cydradd 2ail: Huw ac Olwen; 3ydd: Irene. *Teisen Blât:* 1af: Delyth; 2ail: Mared; 3ydd: Irene. *Jam cartref:* 1af: Irene; 2ail: Beryl; Cydradd 3ydd: Beryl a Beryl.

Y Tîm Buddugol - Tîm y Post

SEFYDLIAD Y MERCHED. Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol yn Festri Eglwys y Waun ar 6 Tachwedd. Croesawodd Catherine Jones, y Llywydd, yr aelodau i'r cyfarfod, ynghyd â Pat Parry, ar ran y Ffederasiwn, i lywio'r cyfarfod.

Etholwyd y canlynol: *Llywydd:* Catherine Jones; *Is-lywydd:* Wenna Edwards; *Ysgrifennydd:* Anne V. Williams; *Is-ysgrifennydd:* Pat Parry; *Trysorydd:* Rose Ann Hughes; *Is-drysorydd:* Iris Evans; *Clwb Cynilo:* Nancy Buckley; *Trefnydd y Rhaglen:* Hilda M. Williams; *Lluniaeth/Raffl:* Annie Thomas; *Gohebydd y Wasg:* Mair W. Williams.

Diolchodd y Llywydd i Pat am ei gwasanaeth. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 4 Rhagfyr, pryd y ceir sgwrs gan Dr Hugh L. Roberts.

PROFEDIGAETH. Daeth newydd trist i'r ardal yr wythnos diwethaf am farwolaeth un o blant y pentref, sef Nancy Myra Carter (Hughes gynt), merch Mr a Mrs William Hughes, Dôl Afon. Priododd Nancy â Don Carter yn ystod y rhyfel ac aeth i fyw i Southampton. Bu Nancy a'r teulu yn ffyddlon iawn yng Nghapel Croes y Waun am flynyddoedd ac roedd hi'n dal yn ffyddlon i'w chapel yn Southampton. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu yn eu colled. Cynhaliwyd angladd Nancy ar 14 Tachwedd.

CYFARCHION Y TYMOR. Dymuna Mr Alun 'Mabon' Williams (13 Bro Waun gynt), Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w deulu a'i ffrindiau.

Dymunwn ninnau Nadolig Dedwydd i chithau hefyd, Alun, ac i rai eraill o'r pentref sydd ar hyn o bryd mewn cartref preswyl.

GENEDIGAETHAU. Llongyfarchiadau i Mrs Alys M. Hughes, 3 Bryn Golau, ar enedigaeth gor-ŵyr bach iddi, Tryfan, mab bach i'w hwyres Ffion a Keith a brawd bach i Beca ac Alis.

Mab bychan, Deian Gwilym, a anwyd i Karl Parry a Rachel. Llongyfarchiadau i Gwilym ac Angela Parry, 7 Bryn Golau ar ddod yn daid a nain.

Ganwyd ŵyr ac wyres fach i George ac Ann Grundy, Fair Field. Mab bach, Rufus, a anwyd i'w merch Susan a'i phriod, Simon, a brawd bach i Georgia. Hefyd ganwyd merch fach, Katie Ann, i Sarah, eu merch arall a'i phriod, Chris, a chwaer fach i Jamie. Llongyfarchiadau mawr i chi i gyd.

Dymunwn anfon ein cofion at George, sydd ddim wedi bod yn dda yn ddiweddar.

Y CLWB 300. Enillwyr y Clwb 300 am fis Hydref oedd: £30: Mr Garry Davies, Hafan, Gallt y Bont; £20: Mrs H. Williams, 8 Croes y Waun; £10: Mrs M. Evans, 7 Trefeilian.

Bydd gwaith buddugol yr Eisteddfod yn y rhifyn nesaf.

EISTEDDFOD YSGOL BRYNREFAIL. Llongyfarchiadau i'r disgyblion o'r pentref a fu'n cystadlu yn Eisteddfod Ysgol Brynrefail, ac i Gwenllian, Teganedd, ar dderbyn Tlws yr Adran Gymraeg a Thlws Gwaith Cartref am ei gwaith arbennig.

DATHLU PEN-BLWYDD. Bu Osian Owen, Stad Tŷ Hen, yn dathlu cyrraedd ei 21 mlwydd oed ac Owain Williams, Ael y Bryn, yn dathlu ei ben-blwydd yn 18 oed. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau ohonoch a phob dymuniad da i'r dyfodol.

ADREF O'R YSBYTY. Croeso adref o'r ysbyty i Shona Morris, Bryn Celyn, wedi iddi gael triniaeth tynnu tonsiliau.

Croeso adre hefyd i Mr Reg King, Ger y Nant, ar ôl treulio cyfnod yn yr ysbyty, ac i Gwilym Parry, 7 Bryn Golau, yntau wedi bod yn yr ysbyty am gyfnod hir.

Hyderwn yn fawr y byddwch oll yn gwella bob dydd ar ôl cael dod adref.

EISTEDDFOD WAUNFAWR. Cynhaliwyd Eisteddfod Waunfawr a'r Cylch ddydd Sadwrn yr 8fed o Dachwedd. Bu'n Eisteddfod lwyddiannus iawn – gyda mwy o blant eto o'r Adran Iau yn cystadlu. Diolch i'r Athrawon am baratoi'r tasgau cartref gyda'r plant ac am hyfforddi'r cystadleuwyr gogyfer a'r cystadlaethau cerddorol.

YR YSGOL GYNRADD.

Ffair Lyfrau. Cynhaliwyd y Ffair Lyfrau o nos Lun i nos Iau, yr ail wythnos o Dachwedd. Diolch i bob rhiant a fynychodd i gefnogi. Gwnaed elw o £258.

Gwasanaeth y Cadoediad. Cynhaliwyd Gwasanaeth Cadoediad blynyddol eleni yn yr ysgol a ger y gofeb ddydd Mawrth yr unfed ar ddeg o Dachwedd. Diolch i bawb o'r pentref a ymunodd gyda ni yn y gwasanaeth a diolch arbennig i'r Parch Donaldson am annerch y plant.

Ymweliad Awdur. Ddydd Iau, Tachwedd y 13eg, cynhaliodd yr awdures, Meinir Pierce Jones, weithdy ysgrifennu gyda phlant blwyddyn 4. Cafwyd prynhawn difyr iawn a chanmolwyd y plant am ymateb mor frwdfrydig.

Plant Mewn Angen. Dyma ychydig o luniau o'r plant yn mwynhau disgo a gafwyd i gefnogi Ymgyrch Plant Mewn Angen ddydd Gwener, Tachwedd y 14eg.

Penderfyniad y Cyngor Ysgol eleni oedd bod pob plentyn yn talu £1.00 yr un am wisgo gwisg ffansi neu mewn ffordd wahanol, datrys posau meddwl, disgo a sesiwn dweud jôcs. Bu'n ddiwrnod llwyddiannus iawn ac fe gasglwyd £150.00 tuag at yr ymgyrch. Diolch i bawb am gefnogi.

Dyddiadau i'w cadw mewn cof

1. Ymweliad y Plismon 17/11/08. Bydd PC Neil Williams yn cynnal sesiynau addysgol gyda'r holl ddosbarthiadau yn ystod y dydd.
2. Bydd Blwyddyn 3 a 4 yn ymweld â Melin Llynnon ac Oriel Llangefni ddydd Mercher 19/11/09 I gyd-fynd â'u gwaith hanes ar y Celtiaid.
3. Cynhelir ein Ffair Nadolig flynyddol eleni nos Fercher, Rhagfyr y 10fed.
4. Cynhelir ein Sioeau Nadolig eleni nos Fawrth, 16eg o Ragfyr a phnawn a nos Fercher, 17eg o Ragfyr.

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

HUD A LLEDRITH. Pwy oedd y chwech ymwelydd mewn du a ymwelodd â Gareth ar noson Hud a Lledrith? Paham nad oedd ond 3 afal i'w gynnig iddynt? A oedd y bobl o amgylch y bwrdd cinio wedi bwyta'r 3 arall? Pwy sy'n gwybod?
PEN-BLWYDD PRIODAS O BWYS. Ym mis Mai, dathlodd Albert a Lil Jones, Erw Wen gynt, eu Priodas Saffir, sef 65 mlynedd o fywyd priodasol. Priodwyd y ddau yn Dover yn 1943 pan oeddynt yn gwasanaethu yn y fyddin. Maent bellach yn 87 mlwydd oed ac mae Albert yn parhau i wasanaethu'n capeli ar ambell Sul! Daliwch ati.
ATGOFION NEL BACH LÔN GLAI. Wrth i chi ddarllen llyfr Ellen Jones, ceir cip ar fywyd ardal Pontrug yn y 1920au, ac mae ynddo lun o blant Ysgol Caeathro yn 1925 gyda'r brifathrawes, Mrs Katie Lloyd Roberts a'r athrawes, Miss Williams, o'r Bontnewydd.
CYDYMDEIMLAD. Yn ddiweddar, bu farw tad Mark Williams, Glandwr, sef Robin Richards, siop papurau newydd, Y Maes, Caernarfon. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu i gyd, yn arbennig Mark, Wendy a Lowri.
MENTRO'N BELL. Mae Megan Lloyd, Tyddyn Cae, ynghyd â'i thad, Tim, wedi dychwelyd i fwynder Caeathro ar ôl cerdded i'r gwersyll ar waelod Everest, sef y man cychwyn i gopa mynydd uchaf y byd. A fydd cyfle i ni gael clywed am ei phrofiadau hi, tybed?
GRŴP CELF. Er mwyn dathlu diwedd y tymor cyntaf yng Nghanolfan y Capel, mae'r Grŵp Celf yn gwahodd pawb i fore agored rhwng 11.00 a 12.00 y bore dydd Mercher, 17 Rhagfyr. Bydd paned o de a bisgedi ar gael.
CYDYMDEIMLAD. Ddiwedd Hydref bu farw Megan Lewis, chwaer Richard Merfyn Roberts, Bryn y Gof. Cydymdeimlwn â'r teulu i gyd yn eu colled.
GWEITHIWR IEUENCTID CRISTNOGOL. Mae'r elusen 'Efe', sef 'Efengyl i Fro'r Eco' wedi penodi gweithiwr ieuenctid ar gyfer dalgylch *Eco'r Wyddfa*. Bydd oedfa i groesawu a chomisiynu Mr Andrew Settatree ar nos Lun, 1 Rhagfyr yng Nghapel y Rhos, Llanrug am 7.00 o'r gloch yr hwyr. Croeso cynnes i bawb. Edrychwn ymlaen i groesawu Andrew i Gaeathro yn y flwyddyn newydd.
CAPEL. Cynhelir yr oedfaon canlynol yn ystod mis Rhagfyr:

7: 11.00 Ysgol Sul
5.30 Oedfa
14: 11.00 Ysgol Sul
21: 11.00 Ysgol Sul
5.30 Oedfa Nadolig gan gynnwys plant yr Ysgol Sul
28: Dim oedfaon

Dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.
PARTI DOLIG Y PLANT. Bydd Parti Dolig y Plant, a drefnir gan Bwyllgor Cae Chwarae Caeathro ar gyfer plant oed ysgol gynradd ac iau, yn cael ei gynnal am 5.30 ar nos Lun, 22 Rhagfyr, yng Nghanolfan y Capel. Bydd YMWELWYR pwysig.
CANU CAROLAU. O dan ei arweinydd newydd bydd Band Ieuenctid Llanrug yn arwain y Canu Carolau o amgylch y Goeden Nadolig gan gychwyn gyda'r garol gyntaf am 7.00. Bydd casgliad tuag at Shelter Cymru a chawl cartref i ddilyn. (Noder: pe bai'r tywydd yn anffafriol, bydd y canu – a'r cawl – yn y Ganolfan).
FFAIR NADOLIG. Bydd Ffair Nadolig y Ganolfan, y Capel a'r Fynwent, ar nos Wener, 12 Rhagfyr am 7.00 o'r gloch yn y Ganolfan. Gofynnir am roddion ar gyfer y stondinau a rafflau ymlaen llaw, os gwelwch yn dda.
GŴYL GERDD DANT. Llongyfarchiadau i Barti Tegeirian, sy'n ymarfer yng Nghanolfan y Capel, ar eu buddugoliaeth yn yr Ŵyl Gerdd Dant yn y Rhyl. Ymhlith yr aelodau mae Bethan, Gwenno a Iona.
NAIN A THAID. Llongyfarchiadau i Eirian a Tony Griffiths, Annedd, ar enedigaeth Jo, mab i Arwel a Nia.

NADOLIG YNG NGHAEATHRO

Nos Wener, 12 Rhagfyr
7.00 o'r gloch: Ffair Nadolig
Nos Fawrth, 16 Rhagfyr
7.00: Canu Carolau
Nos Sul, 21 Rhagfyr
5.30: Gwasanaeth Nadolig
Nos Lun, 22 Rhagfyr
5.30: Parti'r Plant
Dydd Iau, 25 Rhagfyr
trwy'r dydd: Gŵyl yr Iesu
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i Bawb

LLANDDEINIOLEN

CAPEL SEION. Dydd Sadwrn, 25 Hydref 2008, bedyddiwyd Lleucu Angharad, merch fach Euron a Buddug Hughes, Rhos Las, Seion, yng Nghapel Seion. Bedyddiwyd Lleucu gan ei modryb, Y Barchedig Angharad Griffith, Dolgellau.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn
CDH
Ymgynghorwyr Ariannol Annibynnol
27 Stryd y Bont, Caernarfon
(01286) 672727
8 Llys Onnen, Ffordd y Llyn, Parc Menai, Bangor
(01248) 674 460
Dewch atom am gyngor ynghylch yswiriant a materion ariannol
Awdurdodir a rheolir gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTÏON • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
RHOSTIO MOCHYN
AR GYFER
POB ACHLYSUR
* Cig o ffermydd lleol
* Partïon rhwng 40 a 400!
* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
* Efo salad hefyd os dymunwch
DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG
Y DYN CIG ar 675190 / 673188
Ffôn symudol: 07798 718188
wefan: www.ydyncig.co.uk

Tegid a Samantha Pritchard
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR
Ffôn/Ffacs: **(01286) 650291**
Ar Agor
9-7 pm
9-5 pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher
Dewis eang o Welyau a *3P/Suites*.
Llenni *Venetian* a Llenni *Roler*.
5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc – allwch chi fforddio prynu o batrymau?

SNOWDONIA PARC
WAUNFAWR
•Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go Iawn
Ffôn: (01286) 650218

CERIS JONES
Teglan, Stâd Talybont
LLANRUG
677362
neu symudol
07979 620996
• Trwsio ceir a faniau
• Gwaith MOT
• Mecanic profiadol iawn
• Prisiau cystadleuol

Siop Waunfawr

(Howard a Debbie)

Pay Point, Papur Newydd, Cardiau Cymraeg, Cylchgronau, Bwydydd, Nwyddau Tŷ

Ffôn: **(01286) 650834**

Diolch am gefnogi'r fenter newydd

ar agor **7.30 – 6.30**
8.00 – 6.00 (Sadwrn)
9.00 – 12.00 (Sul)
e-bost: siopwaunfawr@live.com

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Oddi wrth **Derek** a **Michele**

Bryn Gwna Inn

CAEATHRO

(01286) 674568

Prydau ar gael
Nos Iau i Nos Sul: 6 - 9 pm
Cinio Dolig a'r gael o 29 Tachwedd



Sadwrn 6ed & Sul 7fed Rhagfyr 2008

Marchned

Bwyd & Chrefftau

Mynydd Gwefru

- Penwythnos o stondinau bwyd ag anrhegion
- Marchned Cyfandirol Ffraneg
- Gwin Gaeaf a 'Mince Pies' Cartref
- Ymweliad gan Sion Corn

...a llawer mwy!

Sadwrn 6ed 'Ceri Ellis' Telynores Gymreig
12pm - 2pm

Sul 7fed 'Band Deiniolen'
10yb – 12yh & 1.30yh – 3yh

Pam ddim gwneud diwrnod ohoni ag ymweld a Pwerdy Dinorwig. Teithiau yn dechrau o Fynydd Gwefru ac yn parhau o gwmpas awr a deg munud. Efallai prynnu anrheg arbennig yn ein siop anghyffredin. Ffoniwch am fwy o fanylion!

Adeilad yn agored 9.30yb tan 5.30yh

Canolfan Ymwelwyr Mynydd Gwefru, Llanberis,
Gwynedd LL55 4UR. 01286 873030
info@electricmountain.co.uk
www.electricmountain.co.uk

Mae hawl gan y trefnwyr, newid y rhaglen heb rybudd

Mynydd Gwefru

Anrhegion a Nwyddau i'r teulu i gyd. Bwyd cartref a'r gael trwy'r dydd. Oriel a Lluniau Cain ar werth.

ORIAU AGOR
Ar agor 7 diwrnod yr wythnos.
10yb tan 4.30yh
Ar gau Rhagfyr 24, 25 & 26.

Oriau Agor Dros y Nadolig;
27, 28, 29 a 30 o Ragfyr
10yb tan 4.30yh
Y flwyddyn Newydd;
Ar gau Rhagfyr 31, Ionawr 1af

Y DEN
Oriau Agored Dros Nadolig;
Cau am 3yh ar Rhagfyr 23.
Ar gau Rhagfyr 24,25 & 26
Agored 27,28,29,30* 10yb tan 6yh
Ar gau Rhagfyr 31, Ionawr 1af.
*Cau 3yh

Hoffem ddiolch i bobl Llanberis a'r cylch am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Hoffem hefyd ddiolch i'r mudiadau sydd yn cwrdd yma yn reolaidd ac edrychwn ymlaen i'w croesawu yn ol y flwyddyn nesaf.

Dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Wefreiddiol I holl ddarllenwyr Eco'r Wyddfa.

PIGION O'R CYNGHORAU

Cyngor Cymuned Llanrug

Gwelliannau i gae chwarae Glanmoelyn: Adroddwyd fod y safle wedi ei chlirio a'r ffens wedi ei thrwsio mewn tri diwrnod ac ategodd sawl Cynghorydd eu bod yn hapus iawn gyda'r gwaith a wnaethpwyd. Eglurwyd fod mwy o waith angen ei wneud i wella'r safle a phenderfynwyd trafod gyda'r prifathro i gael adborth gan y plant ac i drefnu cyfarfod cyhoeddus cyn symud ymlaen gyda hyn.

Llwybrau Cyhoeddus: Dywedodd GH ei fod wedi cyfarfod Mr Dafydd Einion Jones ac wedi cerdded llwybr Ogwen gydag ef ble y bu iddynt drafod cynllun i wella'r llwybr a'i wneud yn fwy defnyddiol. Gobeithir y byddai Cyngor Gwynedd yn talu am hyn ac y byddai'r cynllun yn cael ei wneud erbyn mis Chwefror.

Biniau Brown: Adroddodd y clerc fod mwy o finiau brown am eu dosbarthu gan Cyngor Gwynedd yn mis Ionawr ym mhentref Llanrug. Os na fydd y tai sydd wedi cwyno eisioes yn derbyn biniau brown yr adeg hon, dylid cwyno eto. Dywedwyd hefyd bod cwyn swyddogol wedi ei gwneud am y diffyg biniau cyhoeddus yn Llanrug.

Cynllunio: Cafwyd cadarnhad fod Pwyllgor Cynllunio Arfon wedi caniatáu y ceisiadau canlynol:

- Estyniad llawr cyntaf ar ochr yr eiddo: Bwlch Cottage, Cwm y Glo.
- Codi ystafell haul unllawr ar flaen yr eiddo: Afonwy, Pontrug.
- Ailadeiladu lein: Rhos Ddu, Ffordd yr Orsaf.

Cafwyd hefyd gadarnhad fod y cais canlynol wedi ei wrthod:

- Codi 1 tŷ fforddiadwy: tir ger Disgwylfa Terrace, Llanrug.

Daeth y ceisiadau newydd canlynol gerbron y Cyngor Cymuned:

- Codi lolfa haul unllawr ar gefn yr eiddo: 12 Corlan y Rhos, Llanrug. Eisioes wedi ei ganiatáu, felly ni gafodd ei drafod.
- Codi porth ar flaen yr eiddo a sied yng ngardd gefn 5 Sŵn yr Efail, Llanrug: **Dim gwrthwynebiad.**
- Cais ôl weithredol i ymestyn cwrtil a chreu mynediad newydd: Ship Cottage, Llanrug. Dywedwyd nad oedd ganddom ddigon o wybodaeth i wneud penderfyniad ar y cais hwn.
- Ailgodi porth a gosod ffenestri dormer yng nghefn y to: 5 Mountain View, Llanrug. **Dim gwrthwynebiad.**
- Cwt newydd Band Llanrug. Dangosodd AJ ddiddordeb. Dywedwyd fod y cynllun yn llai na'r un a ddangoswyd o'r blaen. **Dim gwrthwynebiad.**

Cyfranniadau Ariannol: Penderfynwyd cyfrannu fel a ganlyn: Eco'r Wyddfa £600, Eisteddfod bentref Llanrug a Cwm y Glo £300.

Heddlu: Dywedwyd fod yr heddlu wedi gyrru ebost i'r clerc yn ein hysbysu am y gwaith sydd ei angen i wella ymddangosiad safleoedd bysiau Llanrug. Dywedwyd y byddai cynllun yr heddlu yn clirio'r graffiti ac y byddwn ni ond yn talu am y defnyddiau.

Darllenwyd llythyr Cyngor Gwynedd am gyflwr trychinebus y safle bws sydd y tu allan i flaen yr Ysgol Gynradd. Penderfynwyd cysylltu gyda'r adran drafnidiaeth i ofyn a yw bysiau yn stopio yno gan fod ambell gynghorydd yn credu efallai nad oedd bysiau yn stopio yno bellach cyn gwario arian i'w wella.

Cwynion/Pryderon: Trafodwyd y cwynion canlynol:

a) Cyflwr gwael safle gyferbyn â garej Hafod.
b) Diffyg biniau yng nghae chwarae Nant y Glyn.
c) Diffyg biniau i ddal baw cŵn ym mhentref Llanrug.
ch) Problem gyda dŵr budr yn codi yng Ngwm y Gl0 – ger petref Brynrefail.

Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Materion o'r cofnodion

Mainc Pensarn, Penisa'rwaun. Cyflwynodd y clerc brisiau am gyflawni a gosod mainc gyffredin, dur/pren yno a derbyniwyd pris Menter Fachwen.

Ysgubor, Dinorwig. Derbyniwyd ateb Adran Gynllunio Gwynedd nad oedd angen caniatad cynllunio i'r estyniad a wnaed yno.

Trafnidiaeth trwm. Ateb Priffyrdd Gwynedd y bydd peiriannydd yn asesu'r safleoedd yn fuan ac yn trefnu gosod arwyddion lle mae angen.

Trem Eilian, Brynrefail. Ateb Dŵr Cymru yn rhoi rhif ffôn argyfwng pan fydd carthffosiaeth yn llifo i'r ffordd.

Cyflymder trafnidiaeth. Cyflwynwyd ateb Priffyrdd Gwynedd:

Pentref Seion. Hysbysiad bod y broses gyfreithiol wedi ei dechrau i gyfyngu'r cyflwymder i 30 m.y.a.

Fachwen. Yn anffodus nid yw Fachwen yn cydymffurfio â'r canllawiau i ystyried cyflymder o 20 m.y.a., *'oherwydd mae'n ofynnol i'r ardal fod yn hunan gorfodol gan nad yw'r Heddlu yn barod i orfodi cyfyngiad llai na 30 m.y.a'.*

Rhiwlas. Bydd swyddog yn asesu'r safle ar ôl y gwyliau hanner tymor. Penderfynwyd gofyn beth yw *'hunan gorfodol'.*

Baw Cŵn. Ateb Gwynedd yr edrychir ar gae chwarae Penisa'rwaun i weld a oes lle amlycach i osod yr arwydd.

Caniatad Cynllunio. Cyfeiriodd Hefin Williams at y cofnod ynglŷn â siedau yng Nghlwt y Bont, pam bod angen caniatad ar rai gosodiadau a dim ar eraill? Cytunodd Gwilym Williams gan ychwanegu'r anhegwch bod un person wedi gorfod cyflwyno cais llawn am sied ardd. Eglurodd Huw P. Hughes yr amodau gan ddyfynnu mesuriadau a.y.y.b.

Strydoedd uchaf Rhiwlas. Pwysleisiodd Hefin Williams, unwaith yn rhagor, ar yr angen i ailwynebu'r rhain.

Tŷ Mawr Cottages. Gofynnodd Phyllis Ellis beth oedd canlyniad y gŵyn bod ceir wedi eu claddu yno ac atebodd y Clerc nad oedd ateb oddi wrth Asiantaeth yr Amgylchedd hyd yn hyn. Ychwanegodd Huw P. Hughes ei fod wedi cwyno am y golwg sydd yno.

Gwaith ffyrdd a llwybrau mis Tachwedd

Llwybr 139: (Rhiwlas /Carreg y Gath) – gosod giatiau newydd ac arwyddo'r llwybr.

Cysegr, Bethel: draenio dŵr ar wyneb.

Goleuadau cyhoeddus.

Derbyniwyd addewid Gwynedd nad oes bwriad i ddiffodd na gostwng lefel goleuadau oherwydd yr hinsawdd economaidd. Dywedodd y Clerc ei fod wedi gofyn beth fuasai'r sefyllfa pe bai'r Cyngor yn talu am y gosodiad a chyfrannu rhywfaint at gynnal a chadw ond yr un oedd yr ateb.

Cynllunio

Ceisiadau a ganiatawyd gan Wynedd:

Llain o dir ger 2, Rhos Wian, Penisa'rwaun: codi sied amaethyddol.

Coed Bolyn Mawr, Bethel: estyniad i'r orsaf trosglwyddo gwastraff.

Cais a wrthodwyd: estyniad ochr yn 2, Efail Castell, Pentir.

Llwybrau

Cais am olau ar lwybr Tan y Ffordd, Bethel. Ateb Gwynedd - yn wyneb yr hinsawdd economaidd bresennol nid oes cyllid i osod goleuadau newydd, dim ond i gynnal a chadw'r rhai presennol.

Y Grŵp Cymunedol

Darllennodd y Clerc gofnodion cyfarfod y Grŵp ar y 29ain o Hydref. Adroddodd Len Jones ei fod mewn cysylltiad â Gareth Roberts ynglŷn â pharatoi map/mapiau, a chyn gynted ac y bydd y gost yn wybyddus bydd Mr Dafydd Einion Jones yn danfon cais am grant o Gist Gwynedd ar ran y Cyngor.

DODREFN a LLORIAU PERKINS CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- **Pob math o ddodrefn tŷ**
- **Cegin, 'stafell fyw, llofft**
- **Prisiau cystadleuol**
- **Carpedi, Llenni a Lloriau Pren**

CYNGOR CYMUNED LLANBERIS

Cofnodion cyfarfod nos Iau, 20 Tachwedd, 2008.

Presennol ac Ymddiheuriadau
Ward Padarn: Gavin Allsup, Emlyn Baylis, Barry Davies, Elwyn Davies (Cadeirydd), Bethan Holding, Derek Jones, Fred Owen, Douglas Pritchard, Helen Sharp, Trystan Thomas.
Ward Peris: Iola Owen.
Ymddiheuriadau: Gwenda Roberts.

Cadarnhau Cofnodion cyfarfod nos Iau yr 16eg o Hydref 2008. Cynnig ac eilio: DP/EB.

Materion yn codi o'r Cofnodion
• *Ymweliad Yr Heddlu:* Cafodd yr aelodau eu hatgoffa mai amser cinio dydd Mercher cyntaf bob mis, rhwng 12 ac 1 y mae'r heddweision lleol yn cynnal eu syrjeri misol yn 'Mynydd Gwefru', Llanberis. Mae yna hefyd 'flwch syniadau' gan yr Heddlu yn Siop Spar.
• *Y Ganolfan:* Adroddodd y Clerc iddo gael ar ddeall fod ysgrifennydd Y Ganolfan wedi cael hyd i nodyn oedd yn dweud fod pecyn yn perthyn i'r Ganolfan wedi ei adael yn y Banc flynyddoedd maith yn ôl. Efallai mai dyna lle mae'r gweithredoedd coll. Yn y cyfamser bydd y Clerc yn holi am ddyletswyddau ymddiredolwyr y Ganolfan.
• *Y Band:* Cafwyd adroddiad gan ED iddo fod mewn cysylltiad â chyn-arweinydd y Band a'i fod wedi derbyn peth o hanes offerynnau a dogfennau ynglŷn â'r Band. Gofynnwyd i'r Clerc holi Ysgol Dolbadarn i weld a oedd yno gyrn.
• *Y Gofeb:* Diolchwyd i EB am ei waith yn sicrhau fod Y Gofeb yn ddiogel. Soniwyd am y posibilrwydd o roi reiliau a giât o'i chwmpas i sicrhau ei bod yn cael parch a llonydd ac nid cael ei thrin fe bwrdd picnic gan ymwelwyr.

Cynllunio CG:
• C08A/0667/15/CC – *Cais am dynnu 5 coeden sy'n destun gorchymyn gwarchod coed* – Cadnant, Llanberis. Er fod gorchymyn gwarchod ar y coed yma roedd adroddiad gan goedwigwr yn nodi eu bod yn dirywio ac mewn cyflwr drwg. Os mai dyna hefyd fydd barn arbenigwr coed CG yna dim gwrthwynebiad. Cytunwyd nad oedd y Cyngor am weld cwympo mwy na sydd raid o goed.
• C08A/0677/15/CR – *Ailosod y cladin llechi ond gan ddefnyddio llechi o Chwarel y Penrhyn yn lle rhai presennol o Ddinorwig* – Bryn Eirin, Fron Goch, Llanberis. Dim gwrthwynebiad gan nad oes llechi o liw yr ardal yma ar gael.

APCE: • NP3/15/180A – *Diddymu Amod 2 o Ganiatad Cynllunio NP3/15/180 dyddiedig 10fed Ebrill 2006 i alluogi cadw'r bont dros dro yn barhaol* – tir ger maes parcio Gorsaf Rheilffordd yr Wyddfa, Llanberis. Dim gwrthwynebiad. O ran diogelwch credir fod cadw'r bont yn beth synhwyrol, ond tybed na ddylid ei phaentio gan ei bod braidd yn amlwg. Awgrymwyd hefyd y dylid cyfyngu ar ei defnydd i oriau megis 8 y bore hyd 6 yr hwyr.
• NP3/15/205 – *Atgyweirio tŷ yn cynnwys adeiladu estyniad unllawr ar y talcen, trosi sgubor a storfa cyfagos yn rhandy hunangynhaliol, a gosod uned trin carthion* – Gardda Fawr, Nantperis. Dim gwrthwynebiad cyn belled nad ydi'r datblygiad yn tarfu ar lwybr cyhoeddus.

Wedi eu caniatáu / gwrthod
CG: Caniatáu:
• C08A/0577/15/LL – *Newid defnydd llawr isaf adeilad i Academi / Stiwdio Crefft Ymladd* – Hen Co-op, 60 Stryd Fawr, Llanberis.
APCE Caniatáu:
• NP3/15/67G – *Adeiladau ports newydd a newid ffenestri* – Penceunant Isaf, Llanberis.
• NP3/15/T155A – *Estyniad llawr cyntaf* – 3 Glanrafon, Nantperis.
APCE Gwrthod:
• NP3/15/CA22K – *Caniatad Ardal Cadwraeth i ddymchwel adeilad allanol a garejis* – adeilad allanol ger Glyn Peris, Nantperis.
(Mae'r Clerc wedi anfon llythyr at APCE yn tynnu sylw at flerwch dychrynllyd y safle yma, gan bwyso ar y swyddogion i wneud rhywbeth ar fyrder i gael y perchennog i'w glirio.)

Unrhyw Fater Arall
• *Golau Stryd:* Nodwyd fod lamp stryd ar Stryd yr Wyddfa yn dal yn aneffeithiol er fod brigau wedi eu tocio.
• *Meinciau:* Adroddwyd gan BD fod Parc Padarn i osod meinciau ar lan Llyn Padarn, a holwyd a oedd angen mainc neu ddwy yn rhywle arall?
• *Llinellau Melyn:* Cafwyd adroddiad fod EB a TT wedi bod yn edrych ar linellau melyn gwahardd parcio yn ardal Stryd Goodman, ac y byddent yn cyflwyno adroddiad ynglŷn ag anghysonderau i'r cyfarfod nesaf.

Cyfarfod nesaf
Nos Iau y 18fed o Ragfyr, 2008 am 7 yr hwyr.

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

Ar Ben Arall y Lein

Adroddiad 2008

Ysgrifennaf yr adroddiad yma ar ddiwedd mis Hydref. Mae llif yn yr afon a physgotwyr yn dal i'w gweld ar lannau'r Seiont ar ddyddiau olaf tymor cyffrous.

Roedd hi'n oer eto eleni ar ddechrau'r tymor, ac ambell un yma ag acw oedd hi wrth geisio am frithyll yn yr afon ym misoedd Mawrth ac Ebrill, er bod rhai da wedi eu dal o'r cychwyn ar ein llynnoedd. Bu Llyn Padarn yn brysur gydag aelodau ac ymwelwyr er gwaetha'r oerfel. Wrth iddi gynhesu o'r diwedd yn ystod mis Mai roedd Cwellyn a Nantlle hefyd yn gwella, a chafwyd llwyddiant drwy'r haf. Nid oedd golwg fod llawer wedi pysgota am y torgoch eleni.

Yn Rhyd Ddu roedd Llyn Dywarchen yn cynnig pysgod o safon uchel. Yn ychwanegol i'r stocio rheolaidd mae'r clwb yn cadw rhai pysgod yn ôl yn y ddeorfa i gynnal y stoc drwy fisoedd yr haf, ac mae rhai ohonynt yn bysgod tipyn mwy erbyn y daw eu hamser nhw i fynd i'r llyn. Roedd aelodau'n dal yn rheolaidd, a nifer dda o'r pysgod trymach yma yn nodwedd o ddaliadau tuag at ddiwedd yr haf.

Yn ystod mis Mehefin dechreuwyd dal sewin yn Afon Llyfni a chafwyd cyfnod hir o ddal cyson. Rydym yn ddiolchgar i'r aelodau oedd wedi clirio'r glannau yn dda rhwng Pontllyfni a'r môr, trwy wneud hyn roedd digon o le i aelodau 'sgota yn y nos. Cafwyd nosweithiau prysur iawn ac, er cymaint y nifer o bysgotwyr, roedd cân y rîl a sŵn cynnwrf yn y dŵr yn awgrymu fod pawb yn dal yn ei dro.

Yn nyfroedd uchel mis Awst roedd gwyniadau i'w cael yn y dydd hefyd, a physgota oriau'r nos yn ailddechrau wedi'r llifogydd. Fe ddaliwyd sewin ar Afon Seiont hefyd yn ystod yr haf, sydd yn newyddion da. Criw cymharol fach sydd yn 'sgota'r Seiont yn benodol am wyniadau bellach. Efallai petai mwy wrthi yn y nos y buasai mwy byth yn cael eu dal.

Unwaith eto cawsom law mawr a llifogydd o ddyddiau olaf mis Gorffennaf hyd at ddiwedd y tymor. Roedd dŵr uchel yn Afon Seiont yn ddi-dor a physgotwyr yn crwydro'r glannau'n rheolaidd, ond siomedig ar y cyfan oedd y pysgota eog ar lifogydd 'coch Awst'.

Ond, ym mis Medi fe newidiodd pethau a chafwyd rhediad dda o eog ffres. Un neu ddau yn cael eu dal i ddechrau yn y gwaelodion ac yng Nglan Gwna, ond dim cynffon hyd yn oed i'w weld yng Nghrawia. Ond, rhedeg a rhedeg wnaeth y pysgod ac yn ystod ail hanner Medi a dechrau mis Hydref daeth eogiaid at y rhwyd ar hyd yr afon. Roedd yn amlwg hefyd bod nifer dda o'r pysgod yn fwy eu maint na'r arfer. Ar un adeg ymddangosai fel petai mwy o bysgod dros ddeg pwys yn cael eu dal nac o dan y pwysau yma. Mae lluniau rhai o'r pysgod ar wefannau'r Gymdeithas.

Hyd y gwyddom doedd dim golwg o'r gleisiaid a aeth o'r ddeorfa y llynedd ond credwn bellach mai'r tymor nesaf y dychwelant.

Wedi disgrifio'r holl gyffro mae'n rhaid dweud fod pethau wedi tawelu yn y dyddiau diwethaf – ysgrifennaf hwn yn nhrydydd wythnos mis Hydref ac, er bod dŵr da, does dim pysgod yn cael eu dal. Mae rhai o'r hen lawia'n deud mai fel hyn y bydd hi weithiau – bod y pysgod o dan ein trwynau yn rhuthro am Lyn Padarn ond heb aros yn y pyllau ar eu ffordd. Ond mae'r gwynt a'r glaw yn chwipio'r ffenest eto rŵan ac efallai bydd cyfle arall cyn diwedd y genweirio.

Pleser mawr yw adrodd fod pysgod hefyd wedi eu dal ar Afon Gwyrfai. Prin fu'r sôn am yr afon yn yr adroddiadau blynyddol diweddar ond eleni daliwyd eogiaid ar ein dyfroedd, ac un aelod, o leiaf, wedi llwyddo mwy nac unwaith.

I sôn eto am y Llyfni, roedd hi'n amlwg pan oedd y pysgota nos ar ei orau bod ein haelodau ac ymwelwyr yn fodlon cadw pysgodyn neu ddau ond yn rhoi'r rhan fwyaf o'r pysgod yn ôl yn yr afon. Mae mwy o sôn bob blwyddyn am ddal a rhyddhau pysgod, sewin, ac yn arbennig yr eog. O fod yn arferiad hollol ddiarth mae bellach yn un eithaf cyffredin. Rydym ni wedi bod yn dal a rhyddhau eogiaid ar ddiwedd y tymor ar y Seiont ers mwy na degawd bellach. Mae awgrymiadau y telir dipyn o sylw yn y dyfodol agos i arferion pysgotwyr, a'r canran o bysgod sy'n cael eu rhyddhau. Roeddwn i a'r ysgrifennydd mewn cyfarfod yn ystod yr haf lle cyflwynwyd ffigurau rhai o afonydd yr ardal. Rydym ni (ar y Seiont) yn rhyddhau canran uwch o'n eogiaid na 'run afon arall yng ngogledd Cymru. Yn rhannol mae hyn oherwydd y gorfodaeth sy'n cyd-fynd â'n cyfnod mwyaf prysur, ond eto mae'n esiampl o ymarferiad da a chyfrifol, ac yn cyfrannu at ddyfodol ein dyfroedd.

Yn sicr, parhau i newid mae'r byd pysgota. Edrychwch ar ddillad a gêr rhai o'r pysgotwyr ar lan llyn neu afon. Sylwch ar y patrymau yn eu bocsys plu. Mae ffefrynnau newydd sydd wedi llwyddo yn gwthio'r hen ffyddloniaid i gornel y bocs. A hwn oedd y tymor cyntaf i mi weld 'sgotwr wrth sgwrsio yn bodio ffôn symudol i ddangos llun o'i lwyddiant, ond fe'i

gwelais sawl tro yn yr wythnosau dwythaf. Does dim yn aros yr un fath.

Ar draws y wlad mae rhai'n siarad am Ymddiriedolaethau Afonydd neu Rivers Trusts. Mae rhai ymddiriedolaethau bellach wedi eu sefydlu yng ngogledd Cymru. Mae'n fyd dieithr a bygythiol medd rhai. Mae'n rhaid gofyn a fuasai mantais i ni fel clwb fynd i lawr y lôn honno? Y prif reswm i feddwl gwneud fuasai'r manteision ariannol. Edrychwch yn ôl dros y blynyddoedd diweddar ar brosiectau a gwaith sydd wedi eu cyflawni – glanfeydd, cychod, y ddeorfa, Melin y Cim, a hefyd y gwaith cynefinoedd llai amlwg yn ffensio'r nentydd ym mhen ucha'r dyffrynnoedd.

Grantiau ac Arian Ewrop sydd wedi ein galluogi i ddatblygu yn y modd yma ond, bellach, ymddengys y bydd y math yma o gymorth ariannol yn fwy tebygol o gael ei rannu i sefydliadau sydd ar ffurf ymddiriedolaeth ardal neu ddalgylch afon nac i glybiau ac unigolion. Mae'n werth pwysleisio na fuasai'r Gymdeithas yn newid nac yn peidio bodoli petai ymddiriedolaeth leol yn cael ei sefydlu. Ni sydd yn berchnogion ar ein tiroedd a'n hawliau heddiw, ac felly yn union y buasai ar ôl sefydlu ymddiriedolaeth a fuasai'n gorff hollol ar wahân i'r clwb, yn gweithio er lles y cyhoedd, ac efallai yn elusen, ond yn cynnwys cynrychiolaeth gref o'n haelodau. Does dim o gwbl wedi ei benderfynu eto, ac mae'n wir ein bod ni fel clwb ac ardal yn ddipyn llai na rhai ardaloedd eraill sydd wedi sefydlu ymddiriedolaethau yn barod. Er hynny, mae'n bwysig ein bod ni rŵan o leiaf yn sbecian i'r dyfodol ac yn ystyried rhai o'r dewisiadau a fydd, efallai, yn ein gwynebu yn y blynyddoedd nesaf.

Gorau arf, arf dysg ac awgrymaf waith cartref i'r rheini ohonnoch sydd efo cyfrifiadur; ewch i'r wefan:

http://www.associationofriverstrusts.org.uk/guidance/start_up_guide.htm

i gael blas ar y manteison a'r anfanteision.

Diolchaf ar eich rhan i bawb sydd wedi cyfrannu at weithgareddau'r Gymdeithas yn ystod y flwyddyn, y trysorydd, y cyfarwyddwyr ac aelodau'r pwyllgor, yn ogystal â'r rhai sydd yn weithgar tu ôl i'r llenni yn clirio a chynnal y glannau a'r cychod. Diolch i'r ddau unigolyn sydd wedi gweithio'n galed ar gynnal ein gwefannau. Hoffwn ddiolch yn arbennig ar ddiwedd y flwyddyn i'r ysgrifenydd am ei waith yn 2008.

Ar ran y Pwyllgor a'r swyddogion hoffwn gynnig y dymuniadau gorau i chi a'ch teuluoedd dros y Nadolig a'r flwyddyn Newydd a phob hwyl gyda'r enwair yn 2009.

HUW P. HUGHES

Atgofion Hen Sgotwr

Fel mae dydd yr anrhegion yn nesáu, tybed be fydd y pysgotwyr yn ei dderbyn y Nadolig hwn?

Meddwl yr oeddwn am y newidiadau sydd wedi digwydd ym myd pysgota yn ystod fy amser i, a mwy hyd yn oed yn y blynyddoedd cyn hynny. Faint ohonoch tybed sy'n cofio'r amser pan oedd pob modfedd o ddŵr yn eiddo rhyw stad neu'i gilydd. Dyffryn Peris yn eiddo'r Faenol neu Glynllifon, a chiperiaid yn gwneud yn sicr fod y brodorion yn cadw'n ddigon pell.

Ond yng nghanol y pum degau fe ddaeth rhyddid. Do fe ddaeth yn rhydd i ni gael pysgota a saethu dim ond i ni gael caniatad y ffermwyr, ac roedd hwnnw yn ddigon rhwydd i'w gael, chwarae teg. Agorwyd yr afonydd a'r llynnoedd ac fe gafodd fy nghenhedlaeth i bysgota gwerth ei gael yn rhad iawn.

Ond, roedd newidiadau mawr wedi cymryd lle gyda'r gêr. Felly fe ddechreuaf gyda'r newid yn y genweiriau. Yn amser fy nhaid fe ddefnyddid genwair tua deuddeg i bymtheg troedfedd o hyd wedi eu gwneud o wahanol fathau o goed i fachu brithyll. Wedyn daeth y pren *Greenhart* i gael ei ddefnyddio. Ychydig wedyn fe gafwyd gwellhad a thorri i lawr hyd y genweiriau gan ddefnyddio *Splitcane*. Dyma'r enwair yr wyf yn ei chofio ac wedi ei defnyddio am flynyddoedd.

Cofiwch, roedd rhain yn enweiriau penigamp i'w defnyddio, ond roedd yna lawer a oedd yn ddifrifol o wael. Rwy'n cofio rhai yn cael eu gwerthu a oedd wedi eu gwneud yn Siapan a rheiny ddim gwerth ceiniog.

Yn y chwe degau fe ddaeth *Fibreglass* ond, yn y dechrau nid oeddynt cystal â'r cên gorau, ond yn llawer iawn rhatach. Ond buan iawn y cafwyd genweiriau eitha da. Erbyn hyn rhai *Carbon* mae bron pawb yn ei ddefnyddio.

Y newid mawr arall sydd wedi cymryd lle yw y lein. Y lein rwyf i'n eu cofio oedd y lein silc, sef y Kingfisher. Ond cofiwch, roedd angen rhoi saim ar y lein yma bob tro, weithiau ddwy neu dair gwaith y dydd i wneud iddi nofio ar yr wyneb. Byddai'n hanfodol cael gwared â phob mymryn os oedd angen i'r lein suddo, ac roedd yn rhaid gofalu nad oedd dim saim yn mynd ar y blaenllinyn. Hefyd byddai rhaid ei thynnu a'i golchi ar ôl darfod pysgota os oeddech am gadw'r lein cyn hired â phosib.

Ar ben hyn i gyd nid oedd yn hawdd bob tro i wybod pa lein oedd orau i'ch genwair. Toedd yna ddim rhif fel sydd heddiw.

Newid mawr arall oedd defnydd y blaenllinyn. Pan ddechreuais i bysgota dim ond dechrau dod ar y farchnad oedd *nylon*. Y prif ddefnydd blaenllinyn oedd *gut*. Faint ohonoch chi heddiw tybed sy'n cofio hwnnw? Roedd yn ddrud iawn a doedd dim modd ei brynu dim ond mewn darnau o tua troedfedd o hyd. Hefyd roedd angen ei fwydo mewn dŵr cyn y gallech ei glymu i wneud blaenllinyn. Roedd yn breuo mewn dim amser, yn enwedig os byddai'n cael haul.

Yn nechrau'r pum degau fe ddaeth y defnydd *Spanish-Gut* ar y farchnad, sef y *nylon* cyntaf. Roedd hwn yn dipyn rhatach na *Gut* ac hefyd i'w gael mewn darnau o gan troedfedd a mwy. Ond roedd yn tueddu i ehangu ac felly'n ei gwneud yn anodd iawn i fachu pysgod. Roedd yn hwb mawr i bysgotwyr oedd yn troellio a daeth y math yma o bysgota yn fwy poblogaidd pan ddaeth *nylon* yn gyffredin ymhen ychydig iawn o amser yn y chwe degau.

Wel, dyna ddigon am y mis hwn. Fe gawn drin a thrafod mwy o newidiadau y mis mesaf.

Gan ddymuno Nadolig Llawen i chi i gyd.

R. ELWYN GRIFFTH

I drin a thrwsio pob math o beiriannau gwnïo

MENAI SEWING MACHINE CENTRE

33 Stryd Fawr
PORTHAETHWY

Ffôn: **(01248) 714043**
neu **Caernarfon**
Ffôn: **(01286) 674520**

Edau, Nodwyddau ac ati mewn stoc

Cymdeithas Pysgotwyr Seiont Gwyrfai a Llyfni
RHYBYDD O GYFARFOD BLYNYDDOL

Annwyl Aelod,
Hoffwn eich hysbysu y cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithas uchod am 7.00 o'r gloch nos Iau, 11 Rhagfyr 2008, yn yr Institiwt Caernarfon.

Hyderaf y gwnewch pob ymdrech i fod yn bresenol.

HUW P. HUGHES (Ysgrifennydd)
Llugwy, Bethel
LL55 1BX

AGENDA

1. Darllen ac, os yn gywir, arwyddo cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2007.
2. Trafod unrhyw fater yn codi o'r cofnodion.
3. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.
4. Derbyn Adroddiad y Cadeirydd o'r Pwyllgor gwaith (gweler taflen)
5. Derbyn Adroddiad y Trysorydd Anrhydeddus.
6. Penderfynu tal aelodaeth am 2009. Mae'r Cyfarwyddwyr yn cynnig y canlynol:

(a) (i) Oedolyn lleol cyn 1af Mawrth: £175.00;
(ii) Oedolyn lleol ar ôl 1af Mawrth: £220.00;
(b) (i) Oedolyn allanol cyn 1af Mawrth: £220.00;
(ii) Oedolyn allanol ar ôl 1af Mawrth: £295.00;
(c) Oedolyn wythnosol holl ddyfroedd: £85.00;
(ch) Oedolyn dyddiol, holl ddyfroedd yn cynnwys Dywarchen: £17.00;
(d) Oedolyn dyddiol. Padarn, Cwellyn, Dwythwch a Cwm Silyn: £10.00;
(dd) Plentyn dyddiol, fel (d) £5.00;
(e) Plentyn tymor, o dan 18 oed, os mewn addysg bellach: £20.00;
(f) Plentyn dyddiol (ch) a (d): hanner pris oedolyn;
(ff) Tocyn cyntaf i oedolyn o 18 i 20 ml. oed, oedd yn gyn-aelod iau – hanner pris oedolyn lleol;
(g) Tocyn tymor cwch Cwellyn, Dywarchen, Nantlle a Padarn: £50.

7. Swyddogion am 2009
Llywydd: Mr Harry W. Owen, Talysarn.
Is-Lywydd: Mr Alwyn D. Griffith, Penygroes.
Cadeirydd: Dr. Robin. Parry, Llanberis.
Is-Gadeirydd: Mr Gareth B. Jones, Bontnewydd.
Ysgrifennydd: Mr. Huw P. Hughes, Bethel.
Trysorydd: Mr. Gwyndaf T. Jones, Bethel.
Ysgrifennydd y Cofnodion: Mr. Ken Hughes, Bethesda Bach.
8. Ailethol y Tri Cyfarwyddwr: Meistri C. Jones, Ysbyty; W. J. Roberts, Groeslon; H. D. Jones, Bontnewydd.
9. Enwebu aelodau i wasanaethu ar y Pwyllgor gwaith, y swydd i'w dal am 2 flynedd:
Meistri Hefin Huws, Caernarfon; Tony Brown, Waunfawr; N. Thorman, Caernarfon; R. L. Japheth, Caernarfon; M. Williams, Caernarfon.
Hefyd i ethol tri aelod newydd i wasanaethu ar y Pwyllgor Gwaith. Un o'r rhain i wasanaethu am flwyddyn.
10. Cyhoeddi enillwyr a) Tlws Tomi Lovell; b) Tarian W. J. Williams; c) Tlws J. V. Evans.
11. I benodi W. J. Mathews a'i Fab, Caernarfon, fel Cyfrifydd y Gymdeithas.
12. Trafod unrhyw fater arbennig. Rhaid rhoi rhybudd ysgrifenedig o'r pwnc i'w drafod i'r Ysgrifennydd o leiaf 14 diwrnod cyn y Cyfarfod – dyma gyfle i aelodau roi gerbron unrhyw gynnig neu awgrymiad a all fod o fudd i'r Gymdeithas.

HUW P. HUGHES
Ysgrifennydd

CHWARAEON

YSFA I FYND

Yn y bôn, creadur fy milltir sgwâr ydw i cyn belled â'r byd chwaraeon. Ychydig iawn o weithiau rydw i wedi ymlwybro o Gymru, ac ar yr adegau hynny gemau rygbi rhyngwladol sydd wedi fy hudo. Ar wahân i'r hen Barc yr Arfau a Stadiwm y Mileniwm cefais ymweld â Wembley (hen), Croke Park a Heol Landsdowne (Dulyn), Murrayfield a Twickenham. Yna y Parc du Prince a'r anfarwol Stade de France ym Mharis. Gobeithiaf gyflawni'r set ym mis Mawrth drwy ymweld â'r Stadio Flaminio yn Rhufain. Ond diolch i un gêm ryfeddol mae maes arall rwyf eisiau ymweld â fo.

Y maes yw Parc Thormond, draw yn Limerick, ble mae talaith Munster yn chwarae. Stadiwm newydd yw hon yn dal 25,000, wedi addasu yr hen stadiwm a ddaliai 14,000. Bu Munster yn llwyddiannus iawn tra'n cipio Cwpan Ewrop a Chynghrair Magners. O'r llwyddiant yma daeth y gefnogaeth ariannol i ariannu'r datblygiad.

Ond nid moethusrwydd sy'n gwneud stadiwm, ond yr awyrgylch a greir yno. Mae hyn yn deillio o gefnogaeth anhygoel i'r tîm, a ffydd anhygoel yn ymroddiad y tîm dros ei gefnogwyr.

Y rheswm dros y llith yma oedd canlyniad gwylio'r gêm anhygoel ar RTE 2 rhwng Munster a'r Crysau Duon. Am gêm, am awyrgylch, am ymroddiad. Cyn y gêm cafwyd golygfa ryfeddol. Cyn i'r Crysau Duon berfformio'r Haaka, gwelwyd y pedwar Kiwi yn nhîm Munster yn perfformio eu Haaka. Taniwyd y dorf, a chroesawyd y perfformiad unigryw yma gan y Crysau Duon.

Gyda'r 'Fields of Athenry' yn atseinio cafwyd gêm gorfforol ryfeddol a Munster yn arwain 16–13 gyda dau funud i fynd. Rhaid cofio bod rhai o brif chwaraewyr Munster yn absennol oherwydd galwadau rhyngwladol. Prin oedd y dystiolaeth gan i'r 'eilyddion' godi eu gêm a herio'r Kiwis yn hynod o gorfforol. Yna, un camgymeriad amddiffynol, a saethodd Rockokoko dros y llinell a chipio'r fuddugoliaeth i'r ymwelwyr o 18–16. Y dorf ar eu traed yn gwybod eu bod wedi gweld un o gemau 'mawr' y gamp, ac yn adlewyrchu yr hyn sydd yn dda mewn chwaraeon.

Ar y chwib olaf, er y siom, y ddau dîm yn amgylchynu'r maes i gymeradwyo'r dorf. I mi dyma ail-fyw y diwrnod hanesyddol hwnnw a'r sgôr enwog 9–3! Gyda llaw, roedd Munster wedi trechu y Crysau Duon yn 1984, diolch i athrylith y dewin, Tony Ward. Ef oedd un o'r sylwebwyr teledu y tro hwn.

Bydd y llith yma yn y Wasg cyn i Gymru herio'r Crysau Duon. Roeddwn yn y gêm ble llwyddodd Cymru i fethu cymryd y cyfle euraidd i drechu De'r Affrig. Bydd angen mwy o ymdrech i guro 'yr hen elyn' o wlad y cwmwl gwyn. Amser a ddengys, ond braf oedd clywed Gatland yn cyhoeddi'n ddiweddar nad yw 'chwarae'n dda ond colli' yn dderbyniol mwyach. Yn yr oes broffesiynol mae hyn yn her glir i bob chwaraewr sy'n gobeithio gwisgo'r crys coch. Ennill cap nid cael cap!

Ie, Parc Thormond a'i thorf ryfeddol sydd wedi mynd â fy mryd y tro hwn. Ble mae amserlen newydd cwmni Sealink?

AMSER PENDERFYNIAD

Ysgol ddrud yw ysgol brofiad. Os ydyn nhw'n ddigon da mae'n nhw'n ddigon mawr. Dwy hen ystrydeb o fyd y bêl-droed, a dwy a ddaw i'r cof o gyfeirio at fuddugoliaeth Cymru draw yn Nenmarc. Yn anhygoel – oherwydd anafiadau honedig – roedd oed cyfartalog y tîm ar y maes yn 21 oed. Cywion go iawn, ond heb amheuaeth, bydd rhai fel Bale, Ramsay a Collinson yn hedfan yn fuan iawn. Yn eironig mae datblygiad rhyfeddol y nythaid ifanc yma yn dod â chryn benbleth yn ei sgil.

A ddylai Toshack aros gyda'r criw yma am weddill gemau rhagbrofol Cwpan y Byd i fagu profiad ar gyfer y Bencampwriaeth Gwledydd Ewrop nesaf? Yn bersonol mi fuaswn i, ac ychwanegu Ledley, Davies a Hennesey i'r garfan. Enigma yw Koumas, ac mae penderfyniad personol ganddo i'w wneud. Unai mae eisiau chwarae neu beidio – yn enwedig mewn gemau oddi cartref.

Un pwynt diddorol fydd sylwi ar faint y dorf ar gyfer y ddwy gem gartref nesaf yn erbyn y Ffindir a'r Almaen. Mae'r ysbryd newydd yn haeddu cefnogaeth. A oes rhyw ymdeimlad fod Toshack yn dal i fod 'ar brawf' ym marn rhai o ddilynwyr Cymru?

A FU GOR YMATEB?

Bu cryn drafod ynglŷn â'r 'ymladd' yn ystod y gêm ddiweddar rhwng Bangor a Rhyl. Roeddwn yn y gêm, a chafwyd rhyw bum munud lloerig yn dilyn ail gôl Rhyl. Yn sicr nid oedd yn haeddu y 12 modur heddlu a alwyd i gyffiniau'r maes, na'r hofrenydd yr heddlu uwchben. Wrth gwrs roedd y wasg yn llawn geirfa emosiynol y dyddiau canlynol. Bydd ymchwiliad gan yr F.A. a chan fod lluniau teledu ar gael mae'n siŵr y bydd cosb yn dilyn.

Er hyn, mae problem ar Ffordd Farrar, sy'n deillio o'r ffaith ei bod hi mor hawdd symud o un rhan o'r maes i'r llall. Mae hyn yn arwain at grwpiau ifanc yn ymlwybro'n ddidramgwydd drwy'r eisteddle yn fygythiol eu hagwedd a'u hiaith yn aml.

Nid cefnogi yw hyn, gan nad oes gan gynifer ohonynt fawr o ddiddordeb yn beth sy'n digwydd ar y maes. Man cyfarfod yw'r maes i gynifer ohonynt.

Hefyd, onid yn y 'gemau mawr' y ceir y trafferthion. Gwn o brofiad na welir llu o'r rhai sy'n 'cefnogi' yn ystod y gemau hyn yno o Sadwrn i Sadwrn. Gobeithio nad gor-ymateb yr wyf i gan boeni y bydd y cefnogwyr selog yn cadw draw oherwydd ymddygiad y nifer fach o ddrwgweithredwyr. Y mae gwellhad yn safon y gynghrair a dull o chwarae Bangor yn haeddu gwir gefnogaeth.

EDRYCH YN ÔL – Â GWÊN

Ffordd dda i lenwi gofod yw hyn i unrhyw olygydd. Ond braf oedd gwneud hyn yn ddiweddar. Cymysgedd o gyrraedd oed y *'bus pass'* a darganfod bocs y tlysau sy'n gyfrifol am yr 'hen atgofion'. Deuai pob tlws a'i atgof, ond rwyf wedi dewis tair gêm – un fel chwaraewr a dwy fel dyfarnwr. Yr hyn sy'n ddiddorol yw sylwi ble mae'r timau erbyn hyn.

Tua 1975 yw'r atgof cyntaf, wedi dychwelyd o'r de ac ymuno â Llanberis. Yn rownd go-gynderfynol Cwpan Amatur y gogledd, chwarae Llanfairpwll ar Faes Padarn a Llanfair yn geffylau blaen yn Nghyngrair Môn. A dim rhyfedd. Yn eu tîm roedd Merfyl Owen (gol-geidwad arbennig), David McCarter, Now Parry, Joe Williams a Norman Morgan. I gyd â phrofiad o'r Welsh League, oedd yn dipyn o safon.

Chwip o gêm ar bnawn tamp a thyrfa dda. Gêm yn llifo o un pen i'r llall, taclo digyfaddawd a goliau gwych. Cwil ar ei orau ar yr asgell a Meirion Williams yn elwa o'r croesiadau celfydd. 4–3 i Lanfair oedd hi ar y diwedd, diolch i gôl hwyr Norman Morgan. Gêm i'w chofio.

Heddiw mae Llanber wedi dringo i'r Alliance, ond heb dîm yng Nghynghrair Arfon, a Llanfair – sydd newydd gael maes newydd – yn yr adran oddi tan y Gynghrair Genedlaethol.

Yna dyfarnu. Efallai – yn fy marn i – y gêm orau i mi ei chael yn y dillad du. Rownd derfynol Cwpan Penrhyn yn y naw degau. Penrhos a Deiniolen yn herio'i gilydd ar faes Mountain Rangers yn Rhosgadfan. Penrhos – gyda'u llu o chwaraewyr profiadol – yn ffefrynnau. Y fath awyrgylch! Rhai yn awgrymu fod rhyw 700 wedi tyrru yno. Cofiaf yn dda am fysus Williams, Deiniolen, yn rhedeg *shuttle* dybldec i'r gêm.

Eifion Jones fel cawr yn defnyddio'i brofiad i yrru Deiniols ymlaen, a hwythau yn dod yn ôl i ennill 2–1, a dechrau ar hanes rhyfeddol y clwb yn symud i Gynghrair Gwynedd a chipio sawl tlws, gan gynnwys y Junior yn 2000. Ysywaeth nid yw enwau clybiau Deiniolen na Phenrhos yn ymddangos yn ein cynghreiriau erbyn hyn. Diolch byth, mae criw gweithgar yn dal i gynnal clybiau ieuenctid yno. Braf fuasai meddwl y bydd y dyddiau da yn dychwelyd.

Un atgof o'r gêm honno. Rhoi cic gosb i Ddeiniolen. Penderfyniad agos – ond cywir – a'r llumanwr mewn sefyllfa gampus i dystio i gywirdeb y dyfarniad. Dim taeru am *'last man'*, neu *'red card ref'*. Ymlaen â'r gêm.

A'r gêm olaf oedd yr un ryfedda – yn wir, y gêm olaf i mi ddyfarnu'n swyddogol. Llanrug a Machno wedi bod ben-ben drwy'r tymor am bencampwriaeth Cynghrair Gwynedd. Machno wedi gorffen a Llanrug i chwarae Prifysgol Bangor, a rhaid oedd ennill o wyth gôl beth bynnag i fod yn bencampwyr! Torf dda ar Eithin Duon, a'r tro cyntaf i mi weld *'ball-boys'* mewn gemau lleol. Pryd bynnag yr âi'r bel oddi ar y cae teflid pêl arall ymlaen – fel yn y Champions League heddiw. Efallai mai yn Eithin Duon y cawsant y syniad! Nid oedd eiliad i'w golli. Yn wir, stopiais y gêm unwaith gan fod pum pêl ar y maes. Doedd dim rhaid i Lanrug boeni. Tîm 'jôc' gan y Brifysgol a Llanrug yn ennill 17–0 yn y diwedd. Pencampwyr, ac roeddwn yn teimlo dros fechgyn Machno – aeth adref ar hanner amser – wedi tymor ymdrechgar iawn.

Llanrug yn yr Alliance heddiw, a Machno yn ail adran Cynghrair Arfon, a'r Brifysgol yng Nghynghrair Gwynedd. Tipyn o newid. 'On'd 'doedden nhw'n ddyddiau da'.

DIOLCH

Gan mai hwn fydd y rhifyn olaf y bydd Gwasg Gwynedd yn ymwneud ag Eco'r Wyddfa, hoffwn ar ran yr 'Adran Chwaraeon' ddiolch o galon i Islwyn ac Alwena a'r hogia i gyd am eu cymorth parod – ac amynedd – dros gyfnod o amser